

Adferiad tymor hir o COVID-19

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddESS

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddESS@senedd.cymru**
Twitter: **@ SeneddESS**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adferiad tymor hir o COVID-19

Mawrth 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddESS

Cadeirydd y Pwyllgor:



Russell George AS
Ceidwadwyr Cymreig

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Hefin David AS
Llafur Cymru



Suzy Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Helen Mary Jones AS
Plaid Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru



Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	7
1. Cefndir.....	15
2. Dyfodol mwy disglair - defnyddio adferiad i wella economi Cymru	16
Adferiad entrepreneuriaidd	16
Adferiad cydnerth.....	17
Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru yn yr adferiad	18
Deall effaith ymyriadau.....	18
Adferiad a arweinir gan sgiliau.....	20
Adferiad arloesol - buddsoddi mewn Ymchwil ac Arloesi.....	21
Adferiad Gwyrdd.....	23
Gwaith Teg.....	26
3. Cymorth Parhaus i sectorau sydd wedi cael eu taro'n galed	30
Rhyddhad ardrethi busnes.....	30
Cymorth sector-benodol	31
Diwydiannau gweithgynhyrchu.....	33
Rôl caffael ar gyfer adferiad	36
4. Adferiad i bawb.....	38
Gwneud i fuddsoddiadau weithio i bawb	39
Cefnogi pobl o leiafrifoedd ethnig trwy'r adferiad	40
Cefnogi pobl anabl trwy'r adferiad	42
Cydraddoldeb rhywiol yn yr adferiad	44
5. Atal cynnydd sydyn mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc a chenhedlaeth sydd wedi'i chreithio	46
Mesur yr effaith.....	48
Dysgu gwersi ar gyfer cymorth yn y dyfodol	49
Peidio â gadael yr un person ifanc ar ôl.....	50

	Gwneud i hyfforddiant weithio i bawb.....	52
6.	Adferiad Trafnidiaeth	55
	Diogelwch a Hyder	57
	Hybiau trafndiaeth a gweithio o bell	58
	Mesurau teithio llesol dros dro.....	59
	Arloesi.....	60
	Integreiddio.....	60
	Cyllid tymor hir.....	62
	Diwygio deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau bysiau	63
	Mesur perfformiad	64
	Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	66
	Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	69

Rhagair y Cadeirydd

Mae Pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith ddinistriol ledled y byd. Er ein bod wedi gweld ymdrechion arwrol gan staff y GIG a gweithwyr allweddol yn ogystal ag ymyrraeth ddigyffelyb gan Lywodraethau Cymru a'r DU i gadw'r wlad yn ddiogel a'r economi i symud, mae Cymru yn dal i wynebu ei her economaidd fwyaf o fewn cof yr oes hon.

Mae newyddion addawol ynglŷn â'r rhaglen frechu yn ein galluogi i fod yn optimistaidd wrth edrych tuag at ostyngiadau mewn cyfyngiadau ac ailagor sectorau sydd wedi bod ar gau fel lletygarwch a thwristiaeth. Fodd bynnag, wrth i'r argyfwng iechyd gilio rhaid i'r genedl droi ei sylw at yr argyfwng economaidd a adawyd ar ôl yn sgîl y Pandemig a sut y dylai adferiad edrych.

Er na fyddwn yn gwybod beth yw gwir effaith y pandemig ar economi Cymru am beth amser, mae dangosyddion allweddol yn dangos ein bod wedi dioddef difrod digynsail. Fe wnaeth Cynnyrch Domestig Gros y DU ostwng bron 10% yn 2020 a hyd yn oed gyda'r Cynllun Cadw Swyddi yn cefnogi bron dwy ran o dair o'r swyddi yng Nghymru a roddwyd ar ffyrlo ar ei anterth, mae Cymru'n dal wedi gweld cynnydd mawr yn y nifer sy'n derbyn budd-daliadau diweithdra.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi addo buddsoddiadau mawr ar gyfer ail-greu. Mae hwn yn adroddiad cynhwysfawr iawn, sy'n nodi sut y gellir gwneud y gorau o'r buddsoddiadau hynny i ailfywiogi ac ailffocysu economi, darpariaeth sgiliau a rhwydwaith trafnidiaeth Cymru. Os defnyddir y buddsoddiadau hyn yn gywir, byddwn yn gallu mynd i'r afael â phroblemau sydd wedi gwreiddio ac wedi bod yn fwrn ar Gymru ers degawdau, a chreu dyfodol mwy disglair.

Yn ystod y cyfnod ail-greu ac adfer mae angen i ni ddysgu gwers o ddirwasgiadau blaenorol hefyd. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau nad yw pobl a oedd eisoes dan anfantais yn cwmpo ymhellach ar ei hôl hi, a rhaid iddynt weithredu i osgoi brig anferthol mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Er bod rhywfaint o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y presennol, mae'r mwyafrif ohono'n edrych tuag at y dyfodol. Bydd ail-greu yn broses hir ac er mwyn

iddi fod yn llwyddiant bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru, ac o bosibl y rhai ar ôl hynny, roi sylw i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Russell George AS,

Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru fanteisio ar y cynnydd mewn gweithgarwch entrepreneuraidd a rhoi anogaeth i gychwyn busnesau fel ffordd o ysgogi'r adferiad economaidd. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y momentwm cadarnhaol, dylai adolygu'r cymorth sydd ar gael, ac edrych ar enghreifftiau o arfer gorau ledled y DU ac yn rhyngwladol.....Tudalen 17

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall y byd academiaidd gefnogi arweinyddiaeth busnesau bach yn y ffordd orau i gyfrannu at adferiad economaidd Cymru trwy ddatblygu eu potensial ar gyfer twf yn y dyfodol a chefnogi cynhyrchiant, a pha fesurau pellach y gellir eu cymryd i gefnogi hyn. Un enghraifft o hyn y dylai ei hystyried wrth ddatblygu ei dull gweithredu yw'r Rhaglen Arweinyddiaeth Busnesau Bach.....Tudalen 17

Argymhelliad 3. Gan ei bod yn debygol y bydd cynnwrf economaidd yn arwain at siociau economaidd mwy rheolaidd mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar greu cymunedau sy'n gydnerth yn economaidd. Dylai hyn gynnwys canolbwyntio ar y gallu i addasu i siociau rhagweladwy allweddol yn y dyfodol fel y newid yn yr hinsawdd.....Tudalen 18

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru yn cael digon o adnoddau i barhau â'u rolau allweddol yn yr ymdrechion adfer ac ail-greu.....Tudalen 18

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried monitro a gwerthuso o ddechrau pob buddsoddiad neu brosiect newydd ar gyfer adferiad. I wneud hyn dylent adeiladu ar y dull a ddefnyddir yn adroddiad Dirnad Economi Cymru ar ei hymyriadau Covid-19 a gwneud gwaith monitro a gwerthuso manwl o ddechrau prosiectau a buddsoddiadau newydd i gefnogi adferiad. Dylai hyn gynnwys nodau, amcanion a thargedau cyhoeddedig buddsoddiadau, a chyhoeddi data wedi'i ddadgyfuno yn ôl rhanbarthau, sectorau a nodweddion cydraddoldeb lle y bo'n briodol.....Tudalen 19

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a phrifysgolion Cymru i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig i wella amseroldeb ac ehangder casglu data economaidd ar gyfer Cymru.....Tudalen 20

Argymhelliad 7. Rhaid i sgiliau fod wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu nesaf, gan gydnabod y cysylltiad rhyngddyn a chynhyrchiant a ffyniant, er mwyn ysgogi'r adferiad.....Tudalen 21

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru fapio darpariaeth sgiliau Cymru ar lefel systemau i ddatblygu dull cwbl integredig a chydgyssylltiedig o ymdrin â sgiliau yng Nghymru. Rhaid i'r dull systemau cydgyssylltiedig hwn hefyd greu system ffurfiol, hawdd i'w deall a thryloyw i ddiwydiant, cyrff dyfarnu a darparwyr fynd at ei gilydd a chydweithio i ddatblygu a diweddarau cymwysterau sgiliau. Dylai hefyd fynd i'r afael â'r canlynol:

- Sut y mae'r gwahanol ranbarthau economaidd, a buddsoddiadau rhanbarthol fel bargeinion dinesig, yn cysylltu â'i gilydd ar gyfer darpariaeth sgiliau
- Sut y bydd cyllid ail-greu'n cefnogi datblygiad sgiliau ac fel arall hefyd Tudalen 21

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ailedrych ar eu cynlluniau sgiliau yng ngoleuni'r pandemig a buddsoddi mewn offeryn gwybodaeth am y farchnad lafur i sicrhau bod y partneriaethau'n gallu cyflawni eu tasg a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn well. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd nodi rôl glir ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn y dull cydgyssylltiedig a amlinellir o dan Argymhelliad 8.Tudalen 21

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi busnesau bach i fuddsoddi mewn arloesi er mwyn dal i fyny i'r man lle byddent pe na bai pandemig wedi bod. Tudalen 22

Argymhelliad 11. O ystyried pwysigrwydd sylfaenol ymchwil ac arloesi i ffyniant Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r cyllid i roi gweddill argymhellion Adolygiadau Reid a Diamond, gan gynnwys creu Cronfeydd Dyfodol Cymru a Dewi Sant, ar waith yn llawn, a hynny fel mater o frys. Tudalen 22

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn adferiad gwyrdd uchelgeisiol a thrawsnewidiol, gan flaenoriaethu buddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd, seilwaith naturiol a datgarboneiddio economi Cymru. O ystyried datganiad Llywodraeth Cymru ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd, dylai nodi cynlluniau trawsbynciol ar raddfa ddigonol i ymateb i'r her hon.....Tudalen 26

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gyflymu prosiectau seilwaith gwyrdd sy'n barod i gychwyn er mwyn rhoi hwn i greu swyddi ar ddechrau'r adferiad.....Tudalen 26

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddefnyddio cyllid ar gyfer sgiliau i gefnogi swyddi gwyrdd, a chymryd camau cadarn i ddadansoddi a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng anghenion y presennol a'r dyfodol a'r ddarpariaeth sgiliau bresennol.....Tudalen 26

Argymhelliad 15. Fel rhan o unrhyw fuddsoddiad mewn seilwaith dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai'r seilwaith hwn fod yn "wyrdd" - gan ddefnyddio datrysiad amgylcheddol i'r mater y mae'r seilwaith yn mynd i'r afael ag ef.....Tudalen 26

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru roi cefnogaeth i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol trwy unrhyw arian adfer y mae'n ei roi, a dylai gefnogi ymgyrch i gynyddu taliad y Cyflog Byw Gwirioneddol.....Tudalen 28

Argymhelliad 17. Cyn diwedd y Senedd hon, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n gyhoeddus pa gynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg.....Tudalen 29

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru roi arwydd cychwynnol o sut y bydd yn mynd i'r afael â materion gwaith teg sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig.....Tudalen 29

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau i hyrwyddo gwaith teg ymhlith busnesau, fel rhywbeth a all weithio ochr yn ochr â thyfu eu busnes. Fel rhan o'r ymgyrch hwn, dylai weithredu argymhelliad y Comisiwn Gwaith Teg i sicrhau cymorth a dylanwad cyflogwyr i "wella pa mor amlwg a dymunol yw gwaith teg".....Tudalen 29

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu copi o gontract economaidd enghreifftiol i'r Pwyllgor i roi cymorth i graffu arno; gallai hwn fod yn fersiwn wag neu wedi'i olygu i sicrhau na ellir adnabod unrhyw fusnes o'r wybodaeth a ddarperir.....Tudalen 29

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith i ddiweddarau'r contract economaidd yn cael ei ddefnyddio i gryfhau ac ehangu ei gyrhaeddiad, gan gynnwys cyflwyno ystyriaethau o ran cydraddoldeb.....Tudalen 29

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cymdeithasol a grwpiau sectoraidd i ddatblygu mecanwaith ffurfiol ar gyfer monitro'r modd y cydymffurfir â'r contract economaidd a'r canlyniadau y mae'n eu cyflawni.....Tudalen 29

Argymhelliad 23. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ddysgu gwersi o dderbyn rowndiau blaenorol o gymorth busnes ac edrych eto ar bobl na chawsant eu cynorthwyo gan rowndiau blaenorol, gan fynd i'r afael â'r rhwystrau i gael gafael ar gymorth.....Tudalen 36

Argymhelliad 24. Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu cymorth sector-benodol parhaus ar gyfer sectorau sydd wedi cael eu taro'n galed fel manwerthu nad yw'n hanfodol, gwallt a harddwch, twristiaeth a lletygarwch, y celfyddydau a diwylliant. Dylai nodi ei chynigion ar gyfer gwneud hyn yn 2021-22, gan nodi'n glir ble y bydd angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU.....Tudalen 36

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, nodi'r cymorth ariannol sydd ar gael i sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio yn y celfyddydau ar diwydiannau creadigol ar ôl mis Mawrth 2021.....Tudalen 36

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sectorau twristiaeth a lletygarwch ar strategaeth rheoli cyrchfannau, gan gynnwys datblygu ymgyrchoedd i ddenu pobl i Gymru ar gyfer tymor 2021 mewn ffordd gynaliadwy i fusnesau a chymunedau.....Tudalen 36

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ganolbwyntio ymdrechion ar wneud y gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir gan ymchwil a datblygu yn y sectorau awyrofod a dur, gan gyfleu manylion ei dull yn ei chenhadaeth a chynlluniau adfer.Tudalen 37

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru nodi diweddariad ar ei gwaith parhaus i gynyddu'r manteision economaidd i Gymru sy'n deillio o gaffael cyhoeddus, ar lefel leol yn yr economi sylfaenol, ac ennill cyfran deg i fusnesau Cymru mewn buddsoddiadau seilwaith mawr ar lefel y DU.....Tudalen 37

Argymhelliad 29. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl gan yr Adferiad. Rhaid i Lywodraethau'r dyfodol gadw at yr ymrwymiad hwn.....Tudalen 39

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n prif ffrydio cydraddoldeb yn ei pholisïau a'i buddsoddiadau adfer o ddechrau'r broses, a threfnu bod yr wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus.Tudalen 40

Argymhelliad 31. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau cynrychiolaeth ac amrywiaeth ar gyrff sy'n gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag adferiad.
.....Tudalen 40

Argymhelliad 32. Wrth werthuso ei chymorth ar gyfer adferiad, dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod data ar gymorth busnes sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl rhyw ac ethnigrwydd yn cael ei gyhoeddi a'i werthuso, fel yn achos adroddiad Dirnad Economi Cymru ar ei hymyriadau Covid-19. Dylai hefyd ymhelaethu ar y gwaith hwn trwy gyhoeddi data ar gymorth a ddarperir i fusnesau sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl grwpiau pellach sydd â nodweddion gwarchodedig.

.....Tudalen 40

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth i ddatblygu ymgyrchoedd cyfathrebu penodol i ymgysylltu â phobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar raglenni cymorth ac adfer COVID.

..... Tudalen 41

Argymhelliad 34. Dylai grŵp cynghorol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn debyg i'r grŵp a sefydlwyd gan Brif Weinidog Cymru i ymateb i COVID-19, weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar adferiad tymor hir ar gyfer yr economi, sgiliau a thrafnidiaeth..... Tudalen 41

Argymhelliad 35. Dylid cyflawni argymhelliad y Grŵp Cynghorol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i sefydlu Uned Anghyfartaledd Hiliol yn Llywodraeth Cymru fel mater o flaenoriaeth..... Tudalen 41

Argymhelliad 36. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymadau i hygyrchedd (yn yr amgylchedd adeiledig a thrwy bolisi a gweithdrefnau sefydliad) fel maen prawf ar gyfer cael cyllid adfer, a monitro'r modd y mae busnesau'n cydymfurfio â'r rhain..... Tudalen 43

Argymhelliad 37. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb yn gyhoeddus i'r argymhellion ym mhapur briffio Engage to Change "Swyddi i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth - Rôl y GIG" a dylai ddatblygu cynllun cyflogaeth anabledau dysgu ac awtistiaeth ar gyfer sector cyhoeddus Cymru yn unol â'r cynllun ar gyfer y GIG a nodir yn y papur briffio. Tudalen 43

Argymhelliad 38. Mae angen i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r enillion i bobl anabl sy'n deillio o weithio gartref. Fodd bynnag, rhaid iddi sicrhau bod gweithio o bell yn cefnogi pobl anabl ac nad yw'n eu heithrio ymhellach..... Tudalen 43

Argymhelliad 39. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y rhywiau'n ofalus wrth greu cynlluniau adfer a dyrannu cyllid adfer er mwyn osgoi unrhyw ragfarn ddiarwybod tuag at sectorau lle mae'r mwyafrif yn ddynion. Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cyllid ailadeiladu i:

- annog menywod i ymgymryd â mwy o rolau yn y sector adeiladu, yn enwedig y swyddi hynny a grëir gan fuddsoddiadau mewn seilwaith gwyrdd a
- chreu swyddi newydd mewn sectorau lle mae mwyafrif y gweithlu ar hyn o bryd yn cynnwys menywod fel mewn gofal a gofal plant

..... Tudalen 45

Argymhelliad 40. O ystyried y cyfraddau uwch nag erioed o fenywod sy'n colli swyddi ledled y DU yn ystod y pandemig, a bod y gyfradd hon yn llawer uwch nag yn ystod dirwasgiad 2008, dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei rhaglenni cymorth colli swyddi a chynghor gyrfaoedd i sicrhau bod ganddynt adnoddau ac offer llawn i roi lefel uwch o gymorth wedi'i deilwra i fenywod.....Tudalen 45

Argymhelliad 41. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n gyhoeddus sut y bydd yn annog pobl i achub ar gyfleoedd hyfforddi a fydd yn eu harwain at swyddi mewn sectorau lle mae pobl fel hwy yn cael eu tangynrychioli.....Tudalen 45

Argymhelliad 42. Rhaid i atal 'cenhedlaeth Covid' sydd wedi'i chreithio fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad, gyda chynlluniau cadarn i warantu hyfforddiant a phrofiad gwaith o ansawdd da ar gyfer pobl ifanc.Tudalen 53

Argymhelliad 43. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i asesu'r posibilrwydd o gyflwyno Gwarant Cyfle leuenctid ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru fel rhan o'i strategaeth a'i rhaglenni cymorth i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc.....Tudalen 53

Argymhelliad 44. Dylai Llywodraeth Cymru wella ei gwaith strategol gyda chymdeithas ddinesig Cymru a phobl ifanc eu hunain wrth ddatblygu ei dull polisi a'i strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc.Tudalen 53

Argymhelliad 45. Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth i atal 'cenhedlaeth Covid' sydd wedi'i chreithio rhaid i Lywodraeth Cymru greu strategaeth:

- Sy'n cynnwys ymyriadau wedi'u targedu gyda'r nod o gefnogi cyflogadwyedd y carfannau o bobl sy'n gadael addysg yn ystod y pandemig ac yn fuan wedi hynny.
- Sy'n defnyddio dull sy'n mynd y tu hwnt i fesurau cyflogadwyedd i feithrin hyder a chydnerthedd pobl ifanc a mynd i'r afael â'r materion strwythurol sylfaenol
- Sy'n sicrhau bod cynlluniau newydd sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn atal y patrwm mynd a dod lle mae pobl ifanc yn symud i mewn ac allan o amryw gynlluniau cymorth, gan gynnwys trwy sicrhau bod cyrsiau a lleoliadau yn ddigon hir, a'u bod yn cefnogi dilyniant yn llawn.
- Y mae'n rhaid ei llunio ar y cyd gyda phobl ifanc 16-25 oed, gan gynnwys y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, ac y mae'n rhaid iddi gynnwys dangosyddion a chanlyniadau y gellir eu mesur yn glir, gyda phobl ifanc hefyd yn ymwneud â'r mecanweithiau atebolrwydd.
- Sy'n tynnu ar arfer gorau o'r DU a'r tu hwnt Tudalen 53

Argymhelliad 46. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith i sicrhau bod y cynllun Kickstart yn cynnig cymaint o gyfleoedd o ansawdd da â phosibl i bobl ifanc yng Nghymru.

..... Tudalen 54

Argymhelliad 47. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod ganddi, a'i bod yn cyhoeddi, darlun clir o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc y gellir hefyd ei gymharu'n uniongyrchol â gwledydd eraill y DU ac Ewrop..... Tudalen 54

Argymhelliad 48. Dylai Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru wella'r modd yr eir ati i hyrwyddo cyrsiau hyfforddi i bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig. I wneud hyn rhaid iddynt weithio gyda phobl ifanc o'r cymunedau hynny..... Tudalen 54

Argymhelliad 49. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chydweithwyr a chyflogwyr i gynorthwyo pobl â nodweddion gwarchodedig i bontio rhwng hyfforddiant a gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio eu cymwysterau'n llwyr..... Tudalen 54

Argymhelliad 50. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun adfer ar gyfer bysiau a rheilffyrdd sy'n cynnwys:

- y gwaith y mae ei angen i ddeall ac ymateb i anghenion teithio teithwyr ar ôl y pandemig;
- cynlluniau wedi'u blaenoriaethu ar gyfer strwythurau gwasanaethau, prisiau a thocynnau newydd; a
- chefnogi gweithgarwch hyrwyddo a marchnata. Tudalen 64

Argymhelliad 51. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwerthusiad o effeithiolrwydd ymyriadau teithio lleol tymor byr a roddwyd ar waith mewn ymateb i Covid-19. Dylai'r gwerthusiad amlinellu'r gwersi a ddysgwyd, astudiaethau achos ac arfer gorau i'w rannu ar draws awdurdodau lleol.
.....Tudalen 64

Argymhelliad 52. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cwmpas yr opsiynau i roi mwy o sicrwydd cyllid tymor hir i awdurdodau lleol ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth, yn debyg i'r hyn a gynigir i Trafnidiaeth Cymru yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Rhaid ystyried yr angen am gyllid refeniw a chyfalaf. Os nad yw'r cyllid tymor hwy hwn yn bosibl, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir pam fod y dull ar gyfer llywodraeth leol yn wahanol i'r dull ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth.Tudalen 64

Argymhelliad 53. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanweithiau y bydd yn eu defnyddio i sicrhau consensws trawsbleidiol ar flaenoriaethau ar gyfer y buddsoddiadau 'tocynnau mawr' mewn seilwaith trafndiaeth a gweithrediadau sy'n angenrheidiol ar gyfer adferiad.....Tudalen 65

1. Cefndir

Ar 29 Rhagfyr 2019 fe wnaeth Comisiwn Iechyd Trefol Wuhan hysbysu Sefydliad Iechyd y Byd ynghylch clwstwr o achosion o niwmonia. Yn y pen draw, canfuwyd coronafeirws newydd, COVID-19. Ar 28 Chwefror 2000, cadarnhawyd yr achos cyntaf yng Nghymru ac ar 11 Mawrth dywedodd Sefydliad Iechyd y Byd fod COVID-19 erbyn hynny'n bandemig.

1. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gweithredu nifer o gyfyngiadau i reoli lledaeniad y feirws gan gynnwys tri chyfnod o "gyfyngiadau symud" lle mae pob busnes heblaw am y rhai hanfodol wedi bod ar gau a theithio nad yw'n hanfodol wedi'i wahardd. Er bod eu hangen i leihau lledaeniad y feirws, mae'r cyfyngiadau hyn wedi cael effaith ofnadwy ar economi Cymru.

2. O ganlyniad i'r cyfyngiadau, rhoddodd y Pwyllgor y gorau i gwrdd am gyfnod byr. Cyn gynted ag yr ailgydiwyd mewn cyfarfodydd, penderfynodd yr Aelodau ailbennu ffocws y rhaglen waith i ganolbwyntio ar effeithiau'r Pandemig ar economi, seilwaith a sgiliau Cymru. Cyhoeddodd yr Aelodau alwad gyffredinol am dystiolaeth a rhyddhaodd y Pwyllgor ddau adroddiad ar effeithiau uniongyrchol COVID-19, Effaith Covid-19: Crynodeb o'r Canfyddiadau Cychwynnol ac Effaith Covid-19: Sgiliau - Canfyddiadau Cynnar.

3. Yn hydref 2020, wrth barhau i gymryd dystiolaeth a gohebu â Gweinidogion Cymru ar yr argyfwng a oedd yn datblygu, cychwynnodd yr Aelodau ar ymchwiliad eang iawn. Gan bod adferiad yn her mor ddigynsail, roedd yr amodau gorchwyl yn eithriadol o eang, gan ganolbwyntio ar sut y dylai adferiad edrych a sut y gallai Llywodraeth Cymru gyflawni ymrwymïadau a wnaed gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i'r Aelodau y byddai'n defnyddio ail-greu i wella economi Cymru.

2. Dyfodol mwy disglair - defnyddio adferiad i wella economi Cymru

Mae Cymru wedi wynebu rhai materion economaidd sy'n rhagflaenu'r pandemig. Yn hanesyddol mae Cymru wedi bod yn llusgo ar ôl cyfartaledd y DU o ran cynhyrchiant, lefel sgiliau a gwariant ar ymchwil a datblygu. Mae'r pandemig wedi cael effeithiau dyngarol, iechyd ac economaidd-gymdeithasol negyddol eithafol. Fodd bynnag, mae adferiad yn rhoi'r cyfle i ail-greu ac ail-arfogi economi Cymru, ac i fynd i'r afael â'r heriau hanesyddol hyn. Mae'r bennod hon yn nodi sut y dylai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn a defnyddio'r broses ail-greu hon i greu economi fwy arloesol, cydnerth a diogel at y dyfodol i Gymru, gyda gweithlu medrus iawn yn ymwneud â swyddi cynhyrchiant uchel, cydnerth ac ecogyfeillgar.

Adferiad entrepreneuriaidd

4. Yn hanesyddol mae Cymru wedi gweld cyfran is o fusnesau newydd y pen na'r DU gyfan. Esboniodd yr Athro Dylan Jones-Evans wrth y Pwyllgor fod effaith y pandemig a'r cyfyngiadau symud ar gyfradd y busnesau newydd wedi bod yn eithaf diddorol. Fe **eglwrodd mai** "what's happened over the period of March to June is that we saw there was a decline in the number of start-ups, as you'd expect, in March, in April and in May, but, in June, when the economy opened again, there was this release of entrepreneurial intention across the UK."
5. Er bod nifer y busnesau newydd yn dal yn is na chyfartaledd y DU, fel oedd yn wir am bob un o'r gwledydd datganoledig, mae'r agwedd hon a rhyddhau arloesedd, creadigrwydd ac ysbryd entrepreneuriaidd yn dangos potensial Cymru. **Ni ddylid colli'r momentwm hwn.** Mae angen i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i feithrin y creadigrwydd hwnnw, cynnal y momentwm hwnnw er mwyn helpu Cymru i oresgyn heriau economaidd a oedd wedi eu gwreiddio o'r blaen.
6. Fe wnaeth yr Athro Andrew Henley hefyd **amlygu'r** rhaglen arweinyddiaeth busnesau bach a gyflwynwyd yn ddiweddar gan ysgolion busnes y Siarter

Busnesau Bach yn Lloegr, ac awgrymodd ei bod yn siom (“disappointment”) Nad yw Cymru yn cymryd rhan yn hyn. Mae'r **rhaglen** hon yn cael cymorth ariannol gan Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU. Mae'n cynorthwyo uwch arweinwyr i wella cydnerthedd ac adferiad eu busnes o effaith COVID-19, ac mae'n helpu busnesau bach a chanolig i ddatblygu eu potensial ar gyfer twf a chynhyrchiant yn y dyfodol. Mae'r rhain yn feysydd allweddol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn canolbwyntio arnynt fel rhan o'i chefnogaeth i adferiad economaidd, a dylai ystyried y ffordd orau y gall gefnogi'r rhain.

7. Fe wnaeth Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru **amlygu** rôl Banc Datblygu Cymru o ran darparu benthyciadau cychwyn busnes, a rôl canolfannau menter Busnes Cymru o ran cefnogi busnesau newydd. Soniodd hefyd am y Gronfa Rhwystrau, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chyflwyno i gynorthwyo grwpiau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig i gychwyn eu busnes eu hunain.

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru fanteisio ar y cynnydd mewn gweithgarwch entrepreneuriaidd a rhoi anogaeth i gychwyn busnesau fel ffordd o ysgogi'r adferiad economaidd. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y momentwm cadarnhaol, dylai adolygu'r cymorth sydd ar gael, ac edrych ar enghreifftiau o arfer gorau ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall y byd academiaidd gefnogi arweinyddiaeth busnesau bach yn y ffordd orau i gyfrannu at adferiad economaidd Cymru trwy ddatblygu eu potensial ar gyfer twf yn y dyfodol a chefnogi cynhyrchiant, a pha fesurau pellach y gellir eu cymryd i gefnogi hyn. Un enghraifft o hyn y dylai ei hystyried wrth ddatblygu ei dull gweithredu yw'r Rhaglen Arweinyddiaeth Busnesau Bach.

Adferiad cydnerth

8. Un o'r cyfleoedd a gyflwynir trwy adferiad fydd y cyfle i'r Llywodraeth allu gwella cydnerthedd economaidd, ar bob lefel, trwy ddefnydd strategol o gyllid adfer. Fe ddywedodd yr Athro Gillian Bristow **wrth y Pwyllgor** fod y pandemig wedi tynnu sylw at y “importance of economic resilience and how we build to resilience to shocks and change”, A bod hyn yn her fawr (“major challenge”). Aeth yr Athro Bristow ymlaen i ddweud wrth y Pwyllgor bod y pandemig wedi dangos “the global turbulence that we’re currently experiencing and will continue to experience.”

9. Roedd yr Athro Bristow yn awyddus i bwysleisio “how important it is that we shape our economic responses in a manner that helps build our adaptability to

key changes like climate change. So, tying economic responses to the challenge of low carbon, of building greater sustainability and building better well-being for future generations is a critical feature” and that “should be an imperative for our thinking going forward.”

Argymhelliad 3. Gan ei bod yn debygol y bydd cynnwrf economaidd yn arwain at siociau economaidd mwy rheolaidd mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar greu cymunedau sy’n gydnerth yn economaidd. Dylai hyn gynnwys canolbwyntio ar y gallu i addasu i siociau rhagweladwy allweddol yn y dyfodol fel y newid yn yr hinsawdd.

Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru yn yr adferiad

10. Un o storïau llwyddiant y pandemig fu ymateb Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru. Maent wedi profi eu bod yn gallu darparu pecynnau enfawr o gymorth busnes a dosbarthu symiau enfawr o arian ar fyrder ac yn gyflym.

11. Bu gan y Banc Datblygu rôl allweddol o ran dosbarthu arian o dan Gynllun Benthyciadau Busnes COVID-19 Cymru (CWBLs). Dywedodd Gareth Bullock wrth y Pwyllgor fod y Banc wedi dyblu nifer eu cwsmeriaid oherwydd COVID-19. Fe wnaeth Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru amlygu gwaith anhygoel (“incredible work”) Busnes Cymru wrth ddisgrifio’r ymdrech tîm go iawn (“real team effort”) a wnaed wrth ymateb i’r argyfwng. Roedd hyn i gyd wedi digwydd yn erbyn cefndir y pwysau gweithredol enfawr a grëwyd gan y pandemig.

12. Hoffai’r aelodau gofnodi eu diolch i’r holl staff a helpodd yn yr ymdrech tîm hon i gefnogi busnesau Cymru. Mae’n amlwg bod Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru wedi profi eu hystwythder a dylent barhau i fod â rolau allweddol mewn unrhyw gynlluniau adfer.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru yn cael digon o adnoddau i barhau â’u rolau allweddol yn yr ymdrechion adfer ac ail-greu.

Deall effaith ymyriadau

13. Can bod adferiad o’r pandemig yn debygol o ofyn am fuddsoddiad sylweddol, bydd sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn cael gwerth am yr arian a gaiff ei wario’n gwbl hanfodol. Er mwyn cefnogi hyn a goresgyn yr heriau economaidd y mae Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod wedi rhoi’r gweithdrefnau a’r offer ar waith i werthuso effaith buddsoddiad yn gywir.

- 14.** Dywedodd yr Athro Andrew Henley fod monitro a gwerthuso ymhlith y pethau sy'n dân ar ei groen ("bugbears") a **meddai wrth y pwyllogor** "an appropriate monitoring and evaluation of those policies has to be absolutely designed in from the start". Bydd hyn yn galluogi'r Llywodraeth i weld a yw buddsoddiadau a phrosiectau'n gweithio'n gywir a ble y mae angen iddi newid ei dull o weithio. Mae targedau clir a threfn monitro a gwerthuso gref hefyd yn galluogi craffu da, sydd yn ei dro yn galluogi'r Llywodraeth i berfformio ar ei gorau.
- 15.** Disgrifiodd yr Athro Andrew Henley **sut y mae'r** diffyg data economaidd sydd o ansawdd da ac yr adroddir yn gyflym arno'n achosi problemau wrth asesu'r adferiad. Meddai wrth yr "I think the Office for National Statistics and a number of the universities and independent research organisations have moved very quickly to produce unusually rapid sets of data" fodd bynnag, roedd yn dal i deimlo bod gennym "quite a limited understanding as to how the economy is recovering, because even data that's a month or so out of date is out of date."
- 16.** Ef **aeth ymlaen i egluro** bod problemau gyda'r data wedi cael eu gwaethygu yng Nghymru oherwydd, er y gellir rhannu data arolygon y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl rhanbarth neu fesul sector, ni ellir ei rannu yn ôl y ddau gan bod y samplau'n rhy fach ac oherwydd bod oedi sylweddol ("considerable lag") gyda data ynghylch Cynnyrch Domestig Gros. Mae hyn yn golygu na allwch chi wir ragweld sut adferiad y mae'r economi'n ei gael felly "it would be desirable to have a lot more timely data".
- 17.** Trwy gydol yr ymchwiliad clywodd yr Aelodau gyfrolau o dystiolaeth am y risgiau y mae Cymru yn eu hwynebu os bydd y Llywodraeth yn dewis peidio â gweithredu'n bendant. **Mae'r adroddiad hwn yn trafod y risgiau hyn mewn mwy o fanylder, ond mae'r risgiau allweddol yn cynnwys cenhedlaeth o bobl ifanc sydd wedi'u creithio; anallu busnesau Cymru i gael eu sbonc yn ôl a dychwelyd i safle cystadleuol; a phobl sydd eisoes dan anfantais yn cael eu gadael ar ôl wrth i'r economi gael adferiad.**
- 18.** Mae'r Aelodau'n teimlo, wrth edrych ar gost gweithredu i liniaru'r risgiau hyn, bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried o ddifrif beth fyddai cost diffyg gweithredu yn y tymor hir, yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried monitro a gwerthuso o ddechrau pob buddsoddiad neu brosiect newydd ar gyfer adferiad. I wneud hyn dylent adeiladu ar y dull a ddefnyddir yn adroddiad Dirnad Economi Cymru ar ei hymyriadau Covid-19 a gwneud gwaith monitro a gwerthuso manwl o ddechrau prosiectau a buddsoddiadau newydd i gefnogi adferiad. Dylai hyn gynnwys nodau, amcanion a thargedau cyhoeddedig buddsoddiadau, a chyhoeddi data

wedi'i ddadgyfuno yn ôl rhanbarthau, sectorau a nodweddion cydraddoldeb lle y bo'n briodol.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a phrifysgolion Cymru i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig i wella amseroldeb ac ehangder casglu data economaidd ar gyfer Cymru.

Adferiad a arweinir gan sgiliau

19. Mae'r Aelodau'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd cynyddu sgiliau a chyflogadwyedd ("driving up skills and employability") yn adferiad Cymru. **Bydd adferiad a arweinir gan sgiliau yn hanfodol i helpu i ailfywiogi'r economi, rhoi cymorth i greu swyddi o ansawdd da, mynd i'r afael â thrapiau sgiliau isel a gwella cynhyrchiant Cymru.**

20. Dywedodd yr Athro Andrew Henley a'r Athro Dylan Jones-Evans wrth y Pwyllgor am y risg o fuddsoddi mewn seilwaith heb fuddsoddi mewn sgiliau. Fe wnaeth yr Athro Jones-Evans ei gymharu â "buying a Lamborghini for a 17-year-old without giving them driving lessons." Bydd adferiad a arweinir gan sgiliau yn sicrhau bod economi Cymru yn addas ar gyfer y dyfodol a rhaid i hynny fod yn brif ysgogiad cynllun adferiad economaidd Cymru ac yn flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru.

21. Mae gan Gymru broblemau sydd wedi gwreiddio gyda chynhyrchiant. Eglurodd yr Athro Dylan Jones-Evans wrth y Pwyllgor "when we've looked at an economic strategy for Wales, productivity hasn't been at the heart of that" er bod bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a gweddill y DU. Fe wnaeth Adroddiad y Prif Economegydd yn 2020 amlygu her cynhyrchiant Cymru hefyd gan nodi "Mae cynhyrchiant, tâl ac incwm wedi tyfu'n araf iawn yng Nghymru a'r DU ers argyfwng ariannol 2008."

22. Clywodd yr aelodau lawer o dystiolaeth ynghylch yr angen am ddull cydgysylltiedig o ymdrin â sgiliau. Dywedodd Sian Lloyd Roberts wrth y Pwyllgor "Skills can't work in a silo by themselves; it has to be cross-sectoral, so working across that economic development piece. So, we're very much working with the chief regional officer and also with the economic ambition board on that skills economic recovery plan, which will hopefully direct us towards those high-value jobs".

23. Dywedodd Rachel Clegg o Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru wrth yr Aelodau:

“In a lot of ways, the issue of low-skills traps is bigger than the RSPs [Regional Skills Partnerships]. It’s almost a wider economic development issue that would require, I think, targeted interventions across a range of different areas, for example, housing, connectivity, rurality.”

24. Aeth Rachel ymlaen i amlinellu mai rôl y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol oedd “to support employers and businesses in any way that we can, and ensuring that the right people with the right skills are in the right place at the right time.” a oedd yn “easier said than done”. Dywedodd wrth yr Aelodau fod ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eisiau “strengthen our capability of being able to project and forecast, really, future skills needs”.

Argymhelliad 7. Rhaid i sgiliau fod wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu nesaf, gan gydnabod y cysylltiad rhyngddyn a chynhyrchiant a ffyniant, er mwyn ysgogi’r adferiad.

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru fapio darpariaeth sgiliau Cymru ar lefel systemau i ddatblygu dull cwbl integredig a chydgyssylltiedig o ymdrin â sgiliau yng Nghymru. Rhaid i’r dull systemau cydgysylltiedig hwn hefyd greu system ffurfiol, hawdd i’w deall a thryloyw i ddiwydiant, cyrff dyfarnu a darparwyr fynd at ei gilydd a chydweithio i ddatblygu a diweddarau cymwysterau sgiliau. Dylai hefyd fynd i’r afael â’r canlynol:

- Sut y mae’r gwahanol ranbarthau economaidd, a buddsoddiadau rhanbarthol fel bargeinion dinesig, yn cysylltu â’i gilydd ar gyfer darpariaeth sgiliau
- Sut y bydd cyllid ail-greu’n cefnogi datblygiad sgiliau ac fel arall hefyd

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ailedrych ar eu cynlluniau sgiliau yng ngoleuni’r pandemig a buddsoddi mewn offeryn gwybodaeth am y farchnad lafur i sicrhau bod y partneriaethau’n gallu cyflawni eu tasg a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn well. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd nodi rôl glir ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn y dull cydgysylltiedig a amlinellir o dan Argymhelliad 8.

Adferiad arloesol - buddsoddi mewn Ymchwil ac Arloesi

25. Fel yr amlygwyd yn gynharach mae cynhyrchiant yn fater mawr sy’n wynebu economi Cymru. Er mwyn gwella cynhyrchiant rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio cyllid ail-greu i fuddsoddi ym mhob agwedd ar y pos cynhyrchiant fel

rhan o'i chynlluniau adfer. Mae sgiliau yn un rhan o hyn, a'r rhan arall yw ymchwil ac arloesi.

26. Mae gwella cynhyrchiant yn gymhleth ac yn amlweddog gyda sawl ffactor yn ei ysgogi. Dywedodd yr Athro Henley wrth y Pwyllgor "Engaged, effective, well-skilled employees will deliver productivity", hefyd "productivity growth, is typically stimulated by innovation activity" a'i bod yn aml yn wir mai un o'r ffactorau sy'n ysgogi cynhyrchiant, yn enwedig mewn busnesau bach, yw awydd i allforio.

27. Dywedodd Amy Bainton wrth y Pwyllgor fod busnesau, yn ystod argyfwng economaidd, "hunker down and don't prioritise growth" a bod y Ffederasiwn Busnesau Bach yn teimlo y gallai fod ar fusnesau angen "(might need) some help kick-starting innovation when they feel that they're able to".

28. Yn ogystal â chynyddu cynhyrchiant, bydd buddsoddi mewn ymchwil ac arloesi hefyd yn cynorthwyo cymunedau Cymru i fod yn fwy cydnerth yn dilyn siociau economaidd yn y dyfodol. Dywedodd yr Athro Bristow wrth y Pwyllgor fod ymchwil yn dilyn sioc economaidd 2008 wedi dangos "regions and localities that had invested in innovation did better and were more resilient".

29. Mae'n ymddangos mai prifysgolion Cymru sy'n cael y gyfran fwyaf o gyllid ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru. Er enghraifft yng Nghyllideb 2020/21 dyrennir £85.4 miliwn i CCAUC tra bo gan y GIG ddyraniad o £43.4 miliwn ar gyfer ymchwil a datblygu ac £8.8 miliwn ar gyfer arloesi. Mae'n bwysig bod **cyd-gynhyrchu rhwng y Llywodraeth, prifysgolion a busnesau i drosoli'r cyllid hwn a dwyn y canlyniadau gorau posibl i Gymru.** Rhaid cydgysylltu'r gwaith hwn.

30. Yn yr adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru fe amlinellodd Graeme Reid fod Prifysgolion Cymru wedi dibynnu ar gyllid yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi eu gweithgareddau ymchwil ac arloesi. Ym mis Ebrill 2019 cyhoeddodd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesedd yng Nghymru, adroddiad ar y mater hwn. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion yn adolygiad yr Athro Reid. Mae'r argymhellion yn Adolygiadau Diamond a Reid ac adroddiad y Pwyllgor hwn hyd yn oed yn fwy perthnasol yn awr gan bod cyllid Ewropeaidd yn nes byth at ddod i ben.

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi busnesau bach i fuddsoddi mewn arloesi er mwyn dal i fyny i'r man lle byddent pe na bai pandemig wedi bod.

Argymhelliad 11. O ystyried pwysigrwydd sylfaenol ymchwil ac arloesi i ffyniant Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r cyllid i roi gweddill argymhellion

Adolygiadau Reid a Diamond, gan gynnwys creu Cronfeydd Dyfodol Cymru a Dewi Sant, ar waith yn llawn, a hynny fel mater o frys.

Adferiad Gwyrdd

31. Yn 2019 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd ac ar 9 Chwefror 2021 fe osododd reoliadau a fyddai'n golygu bod Cymru'n ymrwmo i dargedau "hynod heriol" a gynghorwyd gan y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd i gyrraedd y nod o allyriadau sero net. **Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r adferiad i helpu i greu economi sy'n lleihau ôl troed carbon Cymru, i gyrraedd y targedau hyn a diogelu a gwella amgylchedd Cymru.**

32. Yn ogystal â'r manteision amgylcheddol mae adferiad gwyrdd hefyd yn ddeniadol yn economaidd, gyda chefnogaeth eang gan gynrychiolwyr busnesau, undebau llafur, melinau trafod, academyddion a sefydliadau amgylcheddol. Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, Sophie Howe, wrth y Pwyllgor "At a UK level, the green economy currently supports about 430,000 jobs a year, and is growing about 11 per cent per year" ac yng ngoleuni "some estimates suggesting that there could be up to 12,000 job losses in Wales clearly, investing in those areas, which are going to be those jobs for the future and help us meet decarbonisation and nature emergency targets, seems to be the right approach and the obvious approach to take."

33. Gyda'r ystyriaethau hyn, mae buddsoddiadau mewn seilwaith gwyrdd, teithio gwyrdd a thrafnidiaeth werdd yn hanfodol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnwys buddsoddiadau gwyrdd yn ei blaenoriaethau ail-greu, megis rhaglen ôl-osod ar gyfer cartrefi, y Rhaglen Tai Arloesol, y Gronfa Economi Gylchol a Fforest Genedlaethol Cymru. Mae'r buddsoddiadau hyn yn rhoi cyfle da i ail-lunio'r economi i gefnogi uchelgeisiau gwyrdd.

34. Rhaid i'r buddsoddiad fod ar raddfa drawsnewidiol, a bydd angen crebwyll i flaenoriaethu buddsoddiadau o fewn terfynau cyllideb Llywodraeth Cymru. Dywedodd Sophie Howe wrth y Pwyllgor fod **angen ysgogiad economaidd gwyrdd sy'n cyfateb i faint yr her**, gan dynnu sylw at y buddsoddiad mewn rhaglen ôl-osod ar gyfer tai, lle mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn £35 miliwn, tra bod angen buddsoddiad o £4.2 biliwn dros gyfnod o 10 mlynedd.

35. Mae dau fath o 'seilwaith gwyrdd', sef seilwaith confensiynol sy'n cael ei wneud yn ecogyfeillgar (e.e. pŵer adnewyddadwy) a datblygu seilwaith sy'n naturiol ynddo'i hun. Rhoddodd Tabia Wilkes o RSPB Cymru ddisgrifiad i'r Pwyllgor o seilwaith gwyrdd a oedd yn darparu "genuine nature-based solutions that could provide jobs, provide flood defence, provide decarbonisation and

nature restoration.” Cyfeiriodd Haf Elgar, o Cyfeillion y Ddaear Cymru, at y rhain fel datrysiadau seiliedig-ar-natur (“nature based Solutions”). Byddai buddsoddi mewn datrysiadau seiliedig-ar-natur gwirioneddol wyrdd fel defnyddio tirweddau naturiol i leihau llifogydd yn cefnogi swyddi newydd ac yn helpu i wella’r amgylchedd byw ac ecolegol.

36. Mae’r alwad am fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd wedi’i gwneud gan fusnesau ac undebau llafur. Mae CBI Cymru wedi galw am gyflymu prosiectau adeiladu sy’n barod i gychwyn (“shovel-ready”) i hybu’r galw a chystadleurwydd yn yr economi. Mae Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC) wedi comisiynu gwaith sy’n awgrymu y gallai bron i 60,000 o swyddi gael eu creu pe bai Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn prosiectau allweddol, gyda buddsoddi mewn prosiectau sy’n barod i gychwyn yn wers allweddol o ddirwasgiad 2008.

37. Mae gan y buddsoddiad hwn y potensial i greu swyddi’n gyflym mewn ardaloedd a gafodd eu taro galetaf gan y pandemig, ac ar gyfer gweithwyr â llai o gymwysterau na’r cyfartaledd. Fodd bynnag, rhaid mynd i’r afael â’r risgiau sy’n ymwneud ag adferiad wedi’i gamystumio a nodir yn yr adran Adferiad i Bawb yn yr adroddiad hwn a’u lliniaru wrth fuddsoddi mewn seilwaith.

38. Rhaid i Lywodraeth Cymru **gynyddu buddsoddiad gwyrdd i’r eithaf**, yn enwedig buddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd, **trwy gysylltu’r nodau hyn ag amcanion eraill**. Enghraifft allweddol fyddai eu cysylltu â buddsoddiad mewn seilwaith cymdeithasol. Fe wnaeth Helen Cunningham o Sefydliad Bevan enghreifftio hyn trwy gyfeirio at fuddsoddi i wella stoc dai Cymru. Esboniodd y gallai prosiectau i insiwleiddio cartrefi gynnwys elfen sgiliau, gan hyfforddi pobl i osod y deunydd inswleiddio, gan ddweud y byddai hefyd yn lleihau tlodi tanwydd.

39. Clywodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth am bwysigrwydd mannau gwyrdd, a faint yr oedd y cyfyngiadau symud wedi tynnu sylw at yr angen am ardaloedd gwyrdd mewn trefi a dinasoedd. Roedd pob un o’r tystion ar banel adferiad gwyrdd y Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fannau gwyrdd. Dywedodd Tabia Wilkes wrth y Pwyllgor “actions that are already being planned, where they’re focused on decarbonisation, they should also focus on nature restoration in equal measure” a bod rhaid i fannau gwyrdd trefol fod yn “genuinely nature rich” a “biodiverse, because there’s a huge economic benefit in providing a space for pollinators.” Roedd o’r farn y gallai’r math hwn o weithgarwch adfer natur hefyd greu swyddi gwyrdd.

40. Nododd Sophie Howe, er bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud rhai penderfyniadau addawol ynglŷn â buddsoddi mewn trafndiaeth, fod “62 per cent of that investment is still going on roads”. Eglurodd Haf Elgar fod angen

“fundamental change” o ran sut yr ydym yn asesu prosiectau “especially in terms of transport infrastructure”. Aeth ymlaen i ddweud bod angen inni symud “away from major roads to active travel infrastructure, such as urban cycling paths and cycling highways, and to integrate that with public transport hubs”. Ategwyd hyn gan Sophie a ddywedodd “at least 50 per cent of the capital budget should be spent on public transport, 10 per cent of the whole budget on active travel, and 20 per cent of the capital budget on active travel.”

41. Mae’n bwysig bod y system sgiliau a’r adferiad gwyrdd yn cael eu datblygu mewn cytgor. Ar hyn o bryd mae gwahaniaeth syfrdanol rhwng y swyddi gwyrdd y gellir eu creu a’r cyrsiau hyfforddi sydd ar gael. Os nad eir i’r afael â hyn, bydd yn creu bylchau sgiliau a chyfleoedd wedi’u colli. Fe wnaeth Sophie Howe enghreifftio hyn trwy amlygu “predictions of about 4,200 or so jobs to be created annually” wrth ôl-osod deunydd inswleiddio, “but currently, in terms of heating and ventilation, the annual starts for apprenticeships are between 20 and 40. And then, reforestation and natural flood defence, the estimations from the TUC are that around 3,500 jobs could be created, but we’re currently taking in between 50 and 120 apprenticeships each year.”

42. Aeth Sophie Howe ymlaen i ddweud bod hyn yn golygu mai’r **her tymor hir i Lywodraeth Cymru oedd sefydlu llwybr sgiliau tymor hir** ar gyfer y swyddi hyn a hefyd sicrhau bod y swyddi’n cael eu targedu at bobl â nodweddion gwarchodedig a’r bobl sydd bellaf o’r farchnad lafur.

43. Awgrymodd Tabea Wilkes o RSPB Cymru y gellid sefydlu “national nature service”. Byddai hwn yn “a kind of green jobs work and training scheme” a fyddai’n “meet the needs of current unemployment, but also to provide the potential for developing transferable skills” ac a fyddai’n gallu “develop conservation skills that would take forward jobs ... into the long term”. Teimlai’r aelodau y gallai’r math hwn o fenter fod yn rhan o’r ateb i’r diffyg cyfleoedd hyfforddi cyfredol a ddisgrifiwyd gan Sophie Howe.

44. Nododd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru fod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn seilwaith trafndiaeth werdd, fel a amlinellwyd yn ei strategaeth drafndiaeth, Llwybr Newydd. Soniodd hefyd am gydweithio gyda Llywodraeth y DU ar feysydd fel strategaeth ddiwydiannol a seilwaith rheilffyrdd. Fe wnaeth Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth amlygu hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd yn ystod y pandemig, gan nodi buddsoddiad o £15 miliwn mewn ailddyrannu lle ar ffyrdd ar gyfer teithio llesol.

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn adferiad gwyrdd uchelgeisiol a thrawsnewidiol, gan flaenoriaethu buddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd, seilwaith naturiol a datgarboneiddio economi Cymru. O ystyried datganiad Llywodraeth Cymru ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd, dylai nodi cynlluniau trawsbynciol ar raddfa ddigonol i ymateb i'r her hon.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gyflymu prosiectau seilwaith gwyrdd sy'n barod i gychwyn er mwyn rhoi hwn i greu swyddi ar ddechrau'r adferiad.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddefnyddio cyllid ar gyfer sgiliau i gefnogi swyddi gwyrdd, a chymryd camau cadarn i ddadansoddi a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng anghenion y presennol a'r dyfodol a'r ddarpariaeth sgiliau bresennol.

Argymhelliad 15. Fel rhan o unrhyw fuddsoddiad mewn seilwaith dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai'r seilwaith hwn fod yn "wyrdd" - gan ddefnyddio datrysiad amgylcheddol i'r mater y mae'r seilwaith yn mynd i'r afael ag ef.

Gwaith Teg

45. Mae risg wirioneddol, o ganlyniad i'r argyfwng economaidd a achosir gan y pandemig, y bydd Cymru yn colli swyddi diogel o ansawdd gwell ac yn gweld cynnydd yn y gyfran o gyflogaeth achlysurol yn y farchnad lafur. **Rhaid cael ymdrech ddwys i osgoi newid i gyflogaeth achlysurol ac i sicrhau, lle collir swyddi â sgiliau uwch a chyflogau uchel, nad ydynt yn cael eu disodli gan swyddi â sgiliau is a chyflogau isel.**

46. Codwyd yr egwyddor o fynd i'r afael â chyflogaeth ansicr gynyddol gan ddefnyddio polisiau gwaith teg, megis ymestyn y Cyflog Byw Gwirioneddol, gan sawl tyst.

47. Dywedodd David Hagendyk wrth y Pwyllgor mai un o'r addasiadau y gallem eu gweld i'r farchnad lafur fyddai "poorer terms and conditions, poorer wage levels" wrth i bobl gymryd rolau gyda chyflogau gwaeth a thelerau ac amodau gwaeth "in order to offset the risk of being unemployed." **Rhybuddiodd** yr Athro Henley hefyd mai un o'r risgiau sy'n gysylltiedig â mwy o weithio gartref oedd ei fod yn dod yn "excuse for greater casualisation of the labour force".

48. Cododd yr Athro Keep ei bryderon ynghylch cynnydd pellach yn y gyfran o'r gweithlu a gyflogir yn achlysurol, yn enwedig pobl iau, gan ddweud "I have significant fears that, actually, a lot of the jobs that will be created in the next two

or three years will be even worse than some of the jobs that have vanished, in terms of they'll be very precarious—they'll be labour by the hour." Aeth ymlaen i egluro, er mai creu swyddi oedd yr allwedd i lwyddiant yr adferiad, mai'r cwestiwn i Lywodraeth Cymru yw'r cyfaddawd rhwng maint ac ansawdd, a sut i hybu'r ansawdd hwnnw.

49. Cyn y pandemig, cyhoeddodd y Comisiwn Gwaith Teg yr adroddiad Gwaith Teg Cymru ym mis Mai 2019. Gwnaeth yr adroddiad hwn 48 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys 6 i'w gweithredu ar unwaith. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y 6 i'w gweithredu ar unwaith, a derbyniodd yr egwyddorion eraill mewn egwyddor.

50. Ym mis Awst 2020, argymhellodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd "Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n gynt i weithredu argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg nad oes angen deddfwriaeth arnynt, gan gynnwys gwella gwybodaeth am hawliau cyflogaeth a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu i sefydliadau sy'n bodloni'r safon gwaith teg yn unig."

51. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddweud:

"Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i flaenoriaethau a dyheadau cenedl gwaith teg fel y'u nodir yn adroddiad Gwaith Teg Cymru. Er bod COVID-19 wedi newid cyd-destun y gwaith hwn yn sylfaenol, rydym yn parhau i weithredu ar yr agenda ac yn blaenoriaethu ymyriadau i gynyddu gwybodaeth gweithwyr a chyflogwyr am hawliau gweithle a ffynonellau cymorth; gwella'r gydberthynas rhwng cyllid cyhoeddus a chyflawni canlyniadau gwaith teg; a gwella canlyniadau mewn meysydd penodol a amlygwyd gan y pandemig, gan gynnwys gofal cymdeithasol ac iechyd a diogelwch."

52. Mae manifesto FSB Cymru ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021 yn galw ar Lywodraeth Cymru i gychwyn ymgyrch a arweinir gan fusnes i gyflawni gwaith teg. Mae'n dweud "nid oes digon wedi'i wneud i ymgysylltu'n ymarferol â chwmnïau bach ar y mater ar eu telerau eu hunain a'u helpu i ddeall sut y gallant dyfu eu busnesau yr un pryd â mynd i'r afael â materion a wnelo â gwaith teg. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru roi busnesau wrth galon y drafodaeth hon ac ymgymryd ag ymgyrch i'w helpu i wella natur y gwaith tra eu bod yn fusnesau llwyddiannus."

53. Nid yw effeithiau'r pandemig wedi bod yn gyfartal, mae'r adroddiad yn trafod hyn yn fanylach yn yr adran ar Adferiad i Bawb. Fodd bynnag, un grŵp o bobl sy'n wynebu risg ac y mae angen cefnogaeth arnynt, ynghlwm wrth yr agenda gwaith

teg, yw'r rhai sydd â chymwysterau isel neu sydd heb gymwysterau o gwbl.

Rhybuddiodd Helen Cunningham y Pwyllgor fod pobl â sgiliau a chymwysterau lefel is "at the sharp end of being most at risk of losing their jobs". Dywedodd wrth yr Aelodau mai "an upskilling programme that is really tailored to them" ddylai'r ymateb i hyn fod a'r rhaglen honno'n "flexible enough to meet the kind of needs that different workers in different places have."

54. Mae Sefydliad Bevan a TUC Cymru wedi galw am gryfhau ac ehangu contract economaidd Llywodraeth Cymru gyda busnesau y mae'n rhoi cymorth ariannol iddynt. Mae Sefydliad Bevan wedi **awgrymu** "extending the 'fair work' provisions in it to cover all public sector assistance to businesses, and robust monitoring of compliance by liaising with trades unions on access to workplaces could all help drive up fair work". Yn yr un modd, mae TUC Cymru **wedi galw am sicrhau** "bod cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ddim ond yn cael ei chynnig ar sail 'rhywbeth am rywbeth' a bod disgwyl i sefydliadau ddangos bod eu harferion yn gwbl gydnaws â Safon(au) Gwaith Teg a'r agenda datgarboneiddio."

55. Mae **tystiolaeth ysgrifenedig** y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i'r Pwyllgor yn nodi bod y contract economaidd yn cynnig cyfle i sbarduno twf cynhwysol ac i gynyddu argaeledd gwaith teg, ond hefyd i hyrwyddo ystyriaethau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yn y gweithle.

56. Fe **amlygodd** Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru fwriad Llywodraeth Cymru i ddiweddarau ("refresh") y contract economaidd. Nododd y bydd diweddarau'r contract economaidd yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch effeithiau'r pandemig ar grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

57. Dywedodd y Gweinidog **wrth y Pwyllgor** hefyd fod gan Lywodraeth Cymru nifer o fforymau sy'n ei chynorthwyo i fonitro'r modd y cydymffurfir â'r contract economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaid cymdeithasol a grwpiau sectoraidd. Dywedodd Sioned Evans o Lywodraeth Cymru **wrth y Pwyllgor** fod monitro busnesau wastad wedi profi'n "quite difficult", ac mai gweithio gyda phartneriaid sydd â mewnwleddiad ar lawr gwlad yw'r dull gorau. Meddai, "We're really keen to make sure that we are not necessarily penalising businesses, but helping to raise them all to the same bar so that we have confidence that businesses in Wales are operating at a standard and in a way in which the Welsh Government can have confidence in using them and supporting them as partners."

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru roi cefnogaeth i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol trwy unrhyw arian adfer y mae'n ei roi, a dylai gefnogi ymgyrch i gynyddu taliad y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Argymhelliad 17. Cyn diwedd y Senedd hon, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n gyhoeddus pa gynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru roi arwydd cychwynnol o sut y bydd yn mynd i'r afael â materion gwaith teg sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau i hyrwyddo gwaith teg ymhlith busnesau, fel rhywbeth a all weithio ochr yn ochr â thyfu eu busnes. Fel rhan o'r ymgyrch hwn, dylai weithredu argymhelliad y Comisiwn Gwaith Teg i sicrhau cymorth a dylanwad cyflogwyr i "wella pa mor amlwg a dymunol yw gwaith teg".

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu copi o gontract economaidd enghreifftiol i'r Pwyllgor i roi cymorth i graffu arno; gallai hwn fod yn fersiwn wag neu wedi'i olygu i sicrhau na ellir adnabod unrhyw fusnes o'r wybodaeth a ddarperir.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith i ddiweddarau'r contract economaidd yn cael ei ddefnyddio i gryfhau ac ehangu ei gyrhaeddiad, gan gynnwys cyflwyno ystyriaethau o ran cydraddoldeb.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cymdeithasol a grwpiau sectoraidd i ddatblygu mecanwaith ffurfiol ar gyfer monitro'r modd y cydymffurfir â'r contract economaidd a'r canlyniadau y mae'n eu cyflawni.

3. Cymorth Parhaus i sectorau sydd wedi cael eu taro'n galed

Er bod bron pob busnes yng Nghymru wedi teimlo effaith negyddol oherwydd y pandemig, mae busnesau na allent yn rhwydd ddarparu gwasanaethau ar-lein fel lletygarwch, twristiaeth a salonau gwallt a harddwch wedi cael eu taro'n galetach na'r rhan fwyaf. Bydd yr effeithiau ar y sectorau o'r economi yr effeithiwyd arnynt waethaf yn cael eu teimlo am nifer o flynyddoedd i ddod. Bydd angen cymorth tymor hir i'w galluogi i ddychwelyd i'w cryfder cyn y pandemig, neu yn achos sectorau a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd, i'w helpu i ffynnu yn y 'normal newydd'.

58. ~~Rhybuddiodd~~ yr Athro Gillian Bristow am bwysigrwydd tynnu cymorth yn ôl yn sensitif ac nid yn rhy gyflym, er mwyn osgoi gwaethygu anghydraddoldebau. Mae'r Aelodau'n cytuno â phryderon yr Athro Bristow ac yn cefnogi'r alwad hon. **Mae ar fusnesau sydd wedi teimlo effeithiau gwaethaf y pandemig angen strategaeth gryfach a hwy ar gyfer ymadael â'r pandemig na gweddill yr economi.**

59. Cafodd rhai mathau o fusnesau eu hepgor o'r rowndiau o gymorth a ddarparwyd ar unwaith, ac roedd yn amlwg na fydd y mathau o gymorth sy'n gweithio i fusnesau mwy yn gweithio i rai llai. Mae busnesau bach hefyd mewn mwy o berygl oherwydd nad oes ganddyn nhw farchnad fyd-eang i ddisgyn yn ôl arni. Roedd angen arian i helpu i gael y cymorth dan rai cynlluniau hefyd, felly roedd busnesau bach â llai o adnoddau ar eu colled. ~~Eglurodd~~ Amy Bainton o'r Ffederasiwn Busnesau Bach wrth yr Aelodau fod cryn ansicrwydd yn wynebu byd busnes o hyd, felly mae angen i'r cymorth fod yn hyblyg i addasu i amgylchiadau sy'n newid. Mae'r Pwyllgor wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw cyllid dewisol a phwrpasol - sydd wedi'i fwriadu i ddal y rhai sy'n cwmpo trwy'r bylchau mewn cymhwystra ar gyfer y cynlluniau mwy - yn rhy gyfyngol.

Rhyddhad ardrethi busnes

60. Roedd galwadau am estyniad i ryddhad ardrethi busnes fel elfen bwysig o gymorth i fusnesau mewn sectorau sydd wedi cael eu taro'n galed fel hamdden, manwerthu a thwristiaeth. O ystyried costau sylweddol hyn, barn y Pwyllgor oedd

y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch ymestyn rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer y sectorau twristiaeth, manwerthu a lletygarwch yn 2021-22, i weld pa symiau canlyniadol dan fformiwla Barnett allai fod ar gael, gyda'r bwriad o roi tawelwch meddwl i fusnesau Cymru trwy allu gwneud cyhoeddiad cynnar ar hyn.

61. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi estyniad ar ryddhad ardrethi busnes ar gyfer y sectorau twristiaeth, manwerthu a lletygarwch am dri mis cyntaf 2021-22. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i fusnesau ynghylch y cymorth sydd ar gael tan ddiwedd mis Mehefin 2021 tra bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn aros i glywed a oes symiau canlyniadol Barnett ar gael. Er y byddai'n amlwg yn well i fusnesau twristiaeth, manwerthu a lletygarwch allu cael cymorth am y flwyddyn ariannol gyfan, mae hwn yn fesur y gallai Llywodraeth Cymru ei ystyried os na ddarperir cyllid ychwanegol trwy fformiwla Barnett.

Cymorth sector-benodol

62. Mae'r angen am gymorth sector-benodol wedi bod yn thema gref yng ngwaith y Pwyllgor ar effaith y pandemig.

63. Mae angen teilwra cymorth ar gyfer adferiad i fynd i'r afael â materion penodol, fel yr hyn a gynigiwyd ar gyfer twristiaeth trwy'r hyn a ddisgrifiodd FSB Cymru fel cronfa gaeafgysgu ("Hibernation Fund") i helpu'r sector hwnnw i ymdopi drwy'r hyn sy'n cyfateb i dri gaeaf.

64. Rhybuddiodd Helen Cunningham o Sefydliad Bevan fod angen rhoi ystyriaeth ofalus ("careful consideration") i gymorth gan ystyried y mynd a dod naturiol ym myd busnes. Dywedodd wrth yr Aelodau bod yn rhaid i ni osgoi cefnogi'r sectorau hynny "that, long term, may struggle to survive." Amlygodd hefyd, wrth gefnogi sectorau, fod angen ystyried cymorth i'w cadwyn gyflenwi, gan ddefnyddio esiampl cwmni TG y mae ei fodel busnes yn "focused on supply to non-food retail or arts and entertainment" a allai fod wedi "really taken a hit on its business."

65. Mae ar lletygarwch angen help gyda chyllid ond hefyd gyda magu hyder. Disgrifiodd David Chapman o Hospitality UK y sefyllfa bresennol fel yr un fwyaf pryderus a pheryglus ("anxious and dangerous") iddo'i gweld. Rhagwelid bryd hynny (ym mis Hydref 2020), o 130,000 o swyddi, y gallai cymaint â 40,000 gael eu colli, sef yn agos at draean o'r cyfanswm. Dywedodd fod y diwydiant wedi cael ei gymryd yn ganiataol o ran ei rôl o ran creu swyddi a chyfrannu at economïau lleol, ac y byddai gweithio ar y cyd rhwng twristiaeth a lletygarwch mewn bwrdd sgiliau yn helpu gyda dull cydlynol o fynd ar drywydd adferiad.

- 66.** Roedd galwad fawr am ymgyrch “**rydyn ni ar agor**” a’r syniad o gynllun “**estyn llaw trwy fynd allan**” i gefnogi twristiaeth. Pan gymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar, tuag at ddiwedd mis Medi, y teimlad cryf oedd bod angen cynllun marchnata i gefnogi adferiad. Awgrymodd Andrew Campbell, Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru, y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth i reoli cyrchfannau a ddefnyddiwyd i gefnogi a hyrwyddo twristiaeth cyrchfannau er budd busnesau a chymunedau yn gyffredinol yn Lloegr. Y pwynt allweddol yn hyn o beth yw diogelu a chefnogi’r cyrchfan yn ei gyfanrwydd. Pwy fydd yn mynd i weld castell neu arfordir os nad oes gwesty i aros ynddo, neu rywle i gael cinio?
- 67.** Ar yr adeg y cymerodd yr ymchwiliad dystiolaeth gan Consortiwm Manwerthu Cymru, roedd cyfyngiadau symud lleol wedi dod i rym, ond roedd effaith bellach cyfyngiadau symud ledled Cymru ar y gorwel o hyd. Bryd hynny fe amlinellodd Sara Jones yr **her allweddol i’r diwydiant manwerthu a oedd yn ymwneud â hybu hyder defnyddwyr** yn wyneb y cyfyngiadau symud lleol hynny. Cafodd yr ymyriadau a oedd wedi’u bwriadu i annog pobl i ymweld â chanol trefi eu croesawu am eu heffaith gadarnhaol ar fanwerthu, ac roedd dull graddol o gyflwyno newidiadau i filiau ardrethi busnes, ac yna diwygio’r system yn fwy radical, yn hollbwysig i’r sector.
- 68.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gref o’r sector gwallt a harddwch ynglŷn â pha mor galed y cafodd ei daro er ei fod yn ddiwydiant a oedd yn llawn bwrlwm cyn Covid. Bu **effaith anghymesur ar y rhywiau gan bod y sector yn gyflogwr pwysig lle mae menywod yn y cwestiwn** - mae’r mwyafrif o fusnesau gwallt a harddwch yn ficro-fusnesau sy’n eiddo i entrepreneuriaid benywaidd ac sy’n cefnogi mamau sy’n gweithio. Ceir hefyd y sgîl-effaith hynod bwysig ar strydoedd mawr o ganlyniad i golli’r busnesau hyn a nifer yr ymwelwyr sy’n gysylltiedig â hwy.
- 69.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog yn gofyn am sicrwydd nad oedd rhagfarn ddarwybod tuag at un o’r rhywiau yng nghymorth y Llywodraeth i’r sector, ac yn gwneud ymholiadau dilynol ynghylch galwadau gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau’r Senedd, yn ei adroddiad ‘Amlygu’r Materion: anghydraddoldeb a’r pandemig’, am gyhoeddi asesiadau o effaith rheoliadau a chanllawiau Covid-19. Gwrthododd Llywodraeth Cymru’r syniad o unrhyw ragfarn ddarwybod yn ei chymorth, ond ni wnaeth ymateb i bwynt y Pwyllgor ynghylch asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb.
- 70.** Mae rhai argymhellion a wnaed gan Victoria Brownlie o’r Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol (NHBF) eisoes wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys ymestyn cymorth busnes, cyllid caledi a chymhellion prentisiaeth. Yn ogystal â galw am estyniad i ryddhad ardrethi busnes ac i Lywodraeth Cymru ymuno â’r

alwad “for the VAT threshold to be significantly increased for labour-intensive service industries.”

71. Galwyd am barhau â dull partneriaeth mewn perthynas ag unrhyw gyfyngiadau symud pellach neu unrhyw reoliadau eraill. Roedd cynrychiolwyr sectorau eraill hefyd yn gefnogol i gael gweld cynlluniau ar adeg gynnar. Er na chafwyd unrhyw feirniadaeth o ymgysylltiad swyddogion Llywodraeth Cymru, roedd capasiti yn broblem. Roedd ar Sara Jones hefyd eisiau gweld Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r addewid i gyflwyno strategaeth fanwerthu a nodwyd yn ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi. Bydd angen i gynllunio sgiliau yn y dyfodol hefyd gynorthwyo gweithwyr i addasu i fyd manwerthu'r dyfodol.

72. Dadleuodd David Hagendyk o'r Sefydliad Dysgu a Gwaith dros “wage subsidies in targeted sectors” fel lletygarwch, twristiaeth a rhannau o fanwerthu, sydd â marchnad hirdymor ond yr effeithir arnynt yn arbennig gan gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod lefel dyled, gan gynnwys dyled bersonol, i fusnesau yn y sectorau hynny yn golygu na fydd ganddyn nhw'r hyblygrwydd i greu swyddi nes bod sicrwydd yn y farchnad eto. Siaradodd Leighton Jenkins o CBI Cymru am sicrhau bod y cymorth yn “sectorally and regionally balanced to ensure an equitable reopening of the economy.”

73. Mae llawer iawn o **weithgarwch celf a diwylliant wedi cael ei atal fwy neu lai ers mis Mawrth 2020 gan bod digwyddiadau byw naill ai wedi bod yn amhosibl neu'n anodd iawn i'w trefnu.** Mae'r pandemig wedi effeithio'n eithriadol ar fusnesau ac unigolion sy'n gweithio yn y maes hwnnw ac mae'n debygol o fod yn un o'r sectorau olaf a all ailagor yn llawn. **Nid yw llawer o ymarferwyr y celfyddydau creadigol na'r rhai yn y gadwyn gyflenwi wedi bod yn gymwys i gael y cymorth a gynigir i'r hunangyflogedig.** Croesewir cyflwyno Cronfa Gweithwyr Llawrydd bwrpasol ym mis Hydref 2020 a'r cyhoeddiad ynglŷn â chymorth pellach ym mis Chwefror 2021. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hwn yn nodi pryderon a godwyd gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd ym mis Rhagfyr 2020 ynghylch diffyg data Llywodraeth Cymru ar wir lefel yr angen, a bod materion brys y mae gofyn mynd i'r afael â hwy o hyd ynghylch hyder y cyhoedd, yswiriant atebolrwydd ac anghenion sefydliadau cymunedol llai. Mae'r Pwyllgor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau â'i hymdrechion i amddiffyn sector sydd, er ei fod yn arloesol ac yn gydnerth, yn hynod fregus ar hyn o bryd.

Diwydiannau gweithgynhyrchu

74. Gallai'r diwydiant awyrofod, sector hanfodol bwysig i Gymru, gymryd tair i bedair blynedd i gael adferiad i lefelau 2019, ac amcangyfrifwyd y gallai chwarter y

bobl golli eu swyddi. **Rhybuddiodd** Peter Hughes o Unite am “tidal wave of redundancies”.

75. Mae pryder ynglŷn â **choli cwmnïau llai a gwannach** yn y gadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, mae dyfodol disglair i'r diwydiant hedfan yn ei gyfanrwydd os achubir ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â thechnoleg newydd, megis datblygu awyrennau hydrogen, a chymell newidiadau i dechnolegau newydd, gan gynnwys technoleg hedfan a gofod lle gallai fod i Gymru ei rhan a'i chyfran o ddull DU gyfan. Dywedodd John Whalley o Fforwm Awyrofod Cymru fod y pandemig wedi **cyflymu'r cynnydd tuag at y technolegau newydd hynny**. Tynnodd Peter Hughes o Unite **sylw at** y ffaith bod gan naw ymhob deg o'r cwmnïau awyrofod mwyaf ganolfan yng Nghymru a bod hynny'n gyfle:

“We're market leaders with really good people and really committed people and we've got to make sure that that's the message that's driven worldwide so that companies want to come and invest in Wales.”

76. Yn yr un modd y **mae'r effaith ar y sector Dur wedi bod yn ddifrifol ac mae angen cymorth hirdymor arno**. Ni fydd materion a achoswyd gan y pandemig yn diflannu dros nos, ac mae darlun tymor hir o lai o alw dros y ddwy flynedd nesaf, ochr yn ochr â phryderon cynyddol am effaith tariffau ar ôl Brexit. Doedd Richard Warren o UK Steel **ddim yn meddwl** bod y rhagolygon tymor hir wedi newid yn sylfaenol serch hynny, ac os yw'r Llywodraeth o ddifrif ynglŷn â datgarboneiddio yna cynhyrchu a defnyddio dur o'r DU yw'r ffordd o fynd i'r afael ag allyriadau. Yr hyn sy'n ofynnol yw dull rhagweithiol (“proactive approach”) o gaffael dur y DU ar gyfer y prosiectau seilwaith mawr yn y cyfnod adfer, nid dim ond parhau â busnes fel arfer (“business as usual”). Roedd cymorth cymedrol wedi cael ei roi yng Nghymru, ond galwodd UK Steel am ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i ymyrraeth gref, sy'n debyg i'r hyn a welwyd gan Ffrainc, yr Almaen ac UDA, ac am fuddsoddi mewn moderneiddio:

“To fundamentally decarbonise a steel site like Port Talbot will require some serious intervention from Government of the order of magnitude that we've seen in the power sector or that we've seen in the automotive sector. And I think that, if we get that right, that is a real opportunity to create a long-term sustainable steel industry in the UK and in Wales. If we get it wrong, it is a fundamental challenge for the sector that, certainly, we couldn't deal with on our own.”

77. Dywedodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru **wrth y Pwyllgor**:

“The interventions that are required to support the transition of steel to a green economy require significant sums from the industrial energy transformation fund. That fund is something that the Welsh Government alone would not be able to afford, and that’s why I caveat our ambitions with the need to address the challenges that certain sectors face by tapping into UK Government funding sources.”

78. Meddai John Whalley “We’ve got a lot of exciting industries coming in to Wales, but if they’re all from overseas suppliers or elsewhere in the UK and we’re not getting our share—. So I think we’re going to have to work very hard collectively to make sure we get our fair share.” Y farn oedd, er bod y materion ar gyfer gweithgynhyrchu yn rhy fawr i Lywodraeth Cymru fynd i’r afael â hwy ar ei phen ei hun, y gallai fod â rôl ddylanwadu bwysig trwy ddangos yr hyn sy’n bosibl, er enghraifft gyda’i phenderfyniadau caffael cyhoeddus ar gyfer prosiectau datganoledig (ymdrinnir â hyn yn fanylach isod).

79. Cyfeiriodd Richard Warren o UK Steel hefyd at y cynllun Kurzarbeit yn yr Almaen fel un sy’n cynnig y math o gymorth hirdymor ar lefel y Trysorlys yr oedd ei angen ar y diwydiant i ymdrin â’i faterion strwythurol. **Nid yw cynlluniau benthyciadau wedi gweithio i’r sector dur** ac ar yr adeg y cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar dim ond **Celsa Steel UK oedd wedi llwyddo i gael gafael ar y cymorth pwrpasol a oedd yn cael ei gynnig ar y pryd gan Project Birch**, ynghyd â chymorth gan Lywodraeth Cymru.

80. Yn dilyn llofnodi’r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) rhwng yr UE a’r DU ym mis Rhagfyr, mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gyfundrefn rheoli cymhorthdal newydd yn y DU tan 31 Mawrth 2021. Ochr yn ochr ag ymestyn y cynllun ffyrlo tan fis Medi 2021, mae Make UK **yn galw am** ddull strategol hirdymor tebyg i’r “Cynllun Marshall” ar gyfer mynd ar drywydd adferiad economaidd gan Lywodraeth y DU, gyda ffocws ar ymchwil ac arloesi, wrth i’r sector gweithgynhyrchu baratoi ar gyfer adferiad a fydd yn cymryd cryn amser. Mae’r CBI **hefyd yn dadlau o blaid** “a national economic vision and strategy” i fapio’r llwybr hyd at 2030, a mynd i’r afael â methiant i uno o amgylch cynllun tymor hir ar gyfer twf a rennir.

81. Meddai Richard Warren: “the decisions the Government makes in the next six to 12 months will be fundamental to the future of the steel industry in Wales and in the UK.”

Rôl caffael ar gyfer adferiad

82. Wrth i fuddsoddiadau mawr gael eu gwneud mewn seilwaith, mae angen defnyddio caffael yn gywir i sicrhau'r budd mwyaf i'r gadwyn gyflenwi a'r gymuned ehangach. Defnyddiodd cynhyrchwyr dur enghraifft HS2, gan nodi eu bod yn meddwl mai'r unig fudd economaidd go iawn i Gymru fyddai pe byddent yn defnyddio dur Cymru. Roedd UK Steel yn gofyn i Lywodraeth y DU osod targedau nad ydynt yn gyfreithiol rwydol ar gynnwys dur y DU mewn prosiectau, a dywedodd y gallai Llywodraeth Cymru ddylanwadu ac arwain trwy esiampl. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai Llywodraeth Cymru oedd llofnodwr cyntaf Siarter Dur y DU i hyrwyddo'r defnydd o ddur Prydeinig o ansawdd da.

83. Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân ar rôl caffael yn yr economi sylfaenol ac mae'n cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn i lywio gwerth cymdeithasol ym maes caffael a rhoi cymorth i fusnesau bach a chanolig gyrchu'r gadwyn gyflenwi.

84. O ystyried amseriad yr adroddiad hwn cyn etholiadau'r Senedd, fel rhan o'i etifeddiaeth mae'r Pwyllgor hwn hefyd yn argymhell bod ei olynydd yn cadw brîff gwylio ar sut mae gwariant adfer yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwahanol sectorau, gan fonitro canlyniadau hynny.

Argymhelliad 23. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ddysgu gwersi o dderbyn rowndiau blaenorol o gymorth busnes ac edrych eto ar bobl na chawsant eu cynorthwyo gan rowndiau blaenorol, gan fynd i'r afael â'r rhwystrau i gael gafael ar gymorth.

Argymhelliad 24. Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu cymorth sector-benodol parhaus ar gyfer sectorau sydd wedi cael eu taro'n galed fel manwerthu nad yw'n hanfodol, gwallt a harddwch, twristiaeth a lletygarwch, y celfyddydau a diwylliant. Dylai nodi ei chynigion ar gyfer gwneud hyn yn 2021-22, gan nodi'n glir ble y bydd angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, nodi'r cymorth ariannol sydd ar gael i sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio yn y celfyddydau ar diwydiannau creadigol ar ôl mis Mawrth 2021.

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sectorau twristiaeth a lletygarwch ar strategaeth rheoli cyrchfannau, gan gynnwys datblygu ymgyrchoedd i ddenu pobl i Gymru ar gyfer tymor 2021 mewn ffordd gynaliadwy i fusnesau a chymunedau.

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ganolbwyntio ymdrechion ar wneud y gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir gan ymchwil a datblygu yn y sectorau awyrofod a dur, gan gyfleu manylion ei dull yn ei chenhadaeth a chynlluniau adfer.

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru nodi diweddariad ar ei gwaith parhaus i gynyddu'r manteision economaidd i Gymru sy'n deillio o gaffael cyhoeddus, ar lefel leol yn yr economi sylfaenol, ac ennill cyfran deg i fusnesau Cymru mewn buddsoddiadau seilwaith mawr ar lefel y DU.

4. Adferiad i bawb

Ni theimlwyd effeithiau'r Pandemig yn gyfartal. Meddai Dr Alison Parken wrth y Pwyllgor "COVID has hit those people who already have very low incomes and little resilience the hardest. So, particularly women, people from ethnic minority communities, disabled people and the young, who are, disproportionately, in these shutdown sectors." Aeth ymlaen i rybuddio "furlough and the plan for jobs may not be enough to keep them out of poverty, food insecurity and housing issues."

85. Fel y trafodwyd yn gynharach, mae risgiau mawr a chyfleoedd mawr yn yr adferiad o COVID-19. Un o'r risgiau yw nad eir i'r afael â'r materion a amlinellodd Dr Parken, neu'n waeth hyd yn oed eu bod yn gwaethygu ymhellach trwy gydol cyfnod yr adferiad. Mae hyn yn golygu bod pobl a oedd dan anfantais cyn dechrau'r pandemig yn dod dan fwy byth o anfantais o ganlyniad i COVID-19, gyda phobl a chymunedau'n cael eu gadael ar ôl. I'r gwrthwyneb, y cyfle yw y gellir defnyddio buddsoddiadau adfer sydd wedi'u cynllunio'n dda ac a weithredir yn dda i leihau anghydraddoldeb yng Nghymru.

86. Mewn sesiwn graffu ar gyfer yr ymchwiliad hwn a sesiwn graffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021/22, cydnabu Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mai'r rhai pellaf o'r farchnad lafur oedd y rhai yr effeithiwyd waethaf arnynt mewn dirwasgiadau blaenorol a nododd ymrwymiad i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gwneud "everything we possibly can to ensure that, when we recover from this recession, it won't be those who were furthest from the labour market who are left furthest behind."

87. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad hwn gan y Gweinidog. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu gwaith penodol y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei wneud er mwyn cefnogi menywod, pobl o gymunedau a chefnidiroedd ethnig lleiafrifol, a phobl anabl, a helpu i gadw addewid y Gweinidog, sef "this time it will be different." Trafodir yr heriau penodol sy'n wynebu pobl ifanc yn yr adran "osgoi cenhedlaeth sydd wedi'i chreithio".

Argymhelliad 29. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl gan yr Adferiad. Rhaid i Lywodraethau'r dyfodol gadw at yr ymrwymiad hwn.

Gwneud i fuddsoddiadau weithio i bawb

88. Dywedodd Dr Alison Parken a Chwarae Teg wrth y Pwyllgor ar 14 Hydref y bu anhawster yn hanesyddol wrth geisio prif ffrydio cydraddoldeb o fewn datblygu economaidd. Meddai Dr Parken:

"The conversation we're having is still about adding in women, adding in disabled people, adding in people from BAME [Black, Asian and Minority Ethnic] backgrounds, if you like, to what is already on the table. I do think we've got an opportunity at the moment to make a step change. So, we should be saying, 'Okay, what we want in Wales, because we've got the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, is this green recovery. Is it digital? Is it AI? Is it care?', setting out exactly what we want to look at and then making that a fully inclusive set of training and jobs and business infrastructure, rather than doing what we usually do and then try and add people in who would otherwise lose out."

89. Dywedodd Shavanah Taj o TUC Cymru wrth y Pwyllgor fod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cynlluniau cymorth busnes yn cael eu gweld fel ôl-ystyriaeth, ond y dylent fod yn rhan annatod o ddatblygu mesurau.

90. Bydd rhoi cymorth i brif ffrydio, cynrychioli ac ystyried pobl o gefndiroedd amrywiol a chyda galluoedd amrywiol wrth wneud penderfyniadau yn hanfodol. Amlygwyd hyn gan Ruth Coombs o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol pan ddywedodd "that people with protected characteristics and the socioeconomically disadvantaged people need to be at the heart of decision making" a bod angen "more diverse people in the room" pan oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

91. Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi tynnu sylw at bwysigrwydd monitro a gwerthuso prosiectau a chyllid adfer. Ochr yn ochr â chynrychiolaeth ac ystyriaeth o fewn prosesau penderfynu mae'n hanfodol bod cyfundrefnau monitro a gwerthuso'n casglu ac yn gwerthuso data ar effeithiolrwydd buddsoddiadau o ran cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig. Mae adroddiad Dirnad Economi Cymru ar Ymyriadau ariannol Covid-19 Llywodraeth Cymru: Dadansoddiad o fuddiolwyr Cymru yn gwneud dechrau da gan ei fod yn dadansoddi cyllid yn ôl

rhyw a hil; fodd bynnag dylid ehangu hyn i gynnwys grwpiau eraill sydd â nodweddion gwarchodedig.

92. Tanlinellodd Cerys Furlong o Chwarae Teg berygl peidio â chasglu'r data hwn yn iawn pan ddwywedodd wrth y Pwyllgor "we know from evaluations of previous schemes around economic recovery that, often, the unintended consequence is that we reinforce the same structural inequalities that we've always had. And if we don't collect and publish the data, then we can't learn from that quickly."

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n prif ffrydio cydraddoldeb yn ei pholisïau a'i buddsoddiadau adfer o ddechrau'r broses, a threfnu bod yr wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus.

Argymhelliad 31. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau cynrychiolaeth ac amrywiaeth ar gyrff sy'n gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag adferiad.

Argymhelliad 32. Wrth werthuso ei chymorth ar gyfer adferiad, dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod data ar gymorth busnes sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl rhyw ac ethnigrwydd yn cael ei gyhoeddi a'i werthuso, fel yn achos adroddiad Dirnad Economi Cymru ar ei hymyriadau Covid-19. Dylai hefyd ymhelaethu ar y gwaith hwn trwy gyhoeddi data ar gymorth a ddarperir i fusnesau sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl grwpiau pellach sydd â nodweddion gwarchodedig.

Cefnogi pobl o leiafrifoedd ethnig trwy'r adferiad

93. Mae'r pandemig wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau economaidd presennol, ac wedi creu rhai newydd. Aeth Shavanah Taj â'r Pwyllgor drwy ymchwil a wnaed gan y TUC a amlygodd fod "one in eight BAME women working in the UK are in insecure roles in comparison to one in 16 women and one in 18 white men. BAME women, we know, have been overly exposed, are at higher risk of being exposed to coronavirus or losing their jobs during the public health crisis". Tynnodd Shavanah sylw hefyd at y gyfradd marwolaethau uwch ymhlith Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan dynnu sylw at ymchwil gan Brifysgol Manceinion "that found that black people are almost twice at risk of dying from coronavirus than white people."

94. Amlygodd Ginger Wiegand o Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST) ymchwil ar lefel y DU gyfan gan Ymddiriedolaeth Runnymede a oedd yn dangos "that ethnic minority groups have been less likely to hear about relief and benefits that are COVID-related than white workers". Dywedodd wrth yr Aelodau fod hyn yn dangos "there is still work to be done about making sure that

rights and entitlements are communicated to people properly, and that all people that are entitled to them are accessing them, particularly ethnic minority workers.” Mae’r ymchwil hon yn peri pryder mawr i’r Pwyllgor ac mae’n cefnogi galwad Ginger am weithredu i godi ymwybyddiaeth o gynlluniau rhyddhad a budd-daliadau ymhlith poblogaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru.

95. Roedd Shavanah Taj yn awyddus i groesawu “the fact that the Welsh Government took a decision to do something slightly differently to the UK Government” trwy ddwyn ynghyd “a group of people to at least start looking at the real issues as far as the socioeconomic factors that were impacting black and Asian BME communities here in Wales.” Arweiniodd hyn at ffurfio’r **Grŵp Cynghorol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)**, dan gadeiryddiaeth yr Athro Emmanuel Ogbonna, a aeth ymlaen i **gyhoeddi adroddiad ym mis Mehefin 2020**. Mae’r Aelodau o’r farn y dylid gofyn i hwn neu grŵp cyngori tebyg fwydo i mewn i raglenni adfer tymor hir ar gyfer yr economi, sgiliau a thrafnidiaeth.

96. Un o argymhellion y Grŵp Cynghorol oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Uned Anghyfartaledd Hiliol. Fe **amlygodd** Tav Shavanah yr argymhelliad hwn yn ei thystiolaeth a dywedodd wrth yr Aelodau y byddai sefydlu’r uned yn anfon “a very clear, loud message.” Yn ei **hymateb i’r adroddiad** dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod “llunio Uned Gwahaniaethau ar Sail Hil i Gymru i bwysu am gydraddoldeb hiliol”. Mae’r aelodau’n cefnogi galwad y Grŵp Cynghorol am Uned Anghyfartaledd Hiliol wrth graidd Llywodraeth Cymru ac yn teimlo bod angen i Weinidogion garlamu ymlaen o ran llunio’r uned hon a rhoi’r argymhelliad hwnnw ar waith fel mater o flaenoriaeth.

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth i ddatblygu ymgyrchoedd cyfathrebu penodol i ymgysylltu â phobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar raglenni cymorth ac adfer COVID.

Argymhelliad 34. Dylai grŵp cynghorol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn debyg i’r grŵp a sefydlwyd gan Brif Weinidog Cymru i ymateb i COVID-19, weithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru ar adferiad tymor hir ar gyfer yr economi, sgiliau a thrafnidiaeth.

Argymhelliad 35. Dylid cyflawni argymhelliad y Grŵp Cynghorol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i sefydlu Uned Anghyfartaledd Hiliol yn Llywodraeth Cymru fel mater o flaenoriaeth.

Cefnogi pobl anabl trwy'r adferiad

97. Roedd pobl anabl eisoes dan anfantais economaidd cyn y pandemig ac maent wedi dioddef mwy o ganlyniad iddo. Dywedodd Rhian Davies o Anabledd Cymru wrth y Pwyllgor "the disability employment gap in Wales is 32 per cent", "the disability pay gap is nearly 10 per cent" a bod 69% o'r bobl sydd wedi marw o COVID-19 yng Nghymru yn anabl.

98. Un o'r pryderon parhaus drwy'r adroddiad hwn yw y bydd cynnydd mewn diweithdra yn ei gwneud hi'n anos byth i bobl a oedd eisoes dan anfantais yn y farchnad lafur gael swyddi. Mae'r Aelodau'n pryderu y gall cyflogwyr, mewn marchnad lafur orlawn, ddewis recriwtio pobl nad ydynt yn anabl yn lle dyflogi pobl anabl a gwneud addasiadau rhesymol.

99. Amlygodd Engage to Change effaith bosibl hyn ar bobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth yn eu papur briffio Swyddi i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth - Rôl y GIG. Mae'r papur briffio hefyd yn tynnu sylw at dair her benodol a chysylltiedig, "maintain the jobs that have already been found for people through initiatives such as Engage to Change, initiatives to raise awareness of people's abilities, and employability options to develop new job opportunities in a very tight labour market."

100. Mae'r papur briffio'n nodi at this time of maximum pressure on the labour market it is important that public sector employers are encouraged to play their role as anchors within their local communities and regions, not least in relation to the employment of people with a learning disability or autism." Â ymlaen i argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu "a learning disability and autism employment plan for the NHS". Mae'r Aelodau'n cefnogi argymhellion Engage to Change ac yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru eu harchwilio ac ymchwilio i weld a ellid ymestyn y cynllun cyflogaeth a argymhellir ar draws sector cyhoeddus Cymru.

101. Tynnodd Rhian Davies sylw at y swm o arian sy'n cael ei dalu i fusnesau trwy'r cynllun ffyrlo a'r hyn fydd yn cael ei dalu trwy raglenni adfer. Awgrymodd mai un o'r adenillion posibl ar y buddsoddiad hwnnw fyddai bod cyflogwyr yn gwneud "commitments to creating inclusive working environments". Gallai hyn gynnwys sefydliadau sy'n cael cyllid "systemically going through their policies on things like recruitment selection, progression, and training for disabled people." Fodd bynnag, rhybuddiodd Rhian y bu dulliau polisi tebyg yn y gorffennol ond heb unrhyw weithredu dilynol - rhaid i hynny beidio â digwydd y tro hwn. Mae angen i Lywodraethau Cymru a'r DU sicrhau bod targedau neu ofynion sydd wedi'u cynnwys fel rhan o unrhyw becyn cymorth yn cael eu cyflawni.

102. Wedi dweud hynny, bu rhai buddion o'r pandemig i bobl anabl. Mae gweithio gartref yn enghraifft allweddol o hyn. Rhian Davies ~~dywedodd wrth y Pwyllgor~~ roedd gweithio gartref yn addasiad rhesymol yr oedd pobl anabl wedi galw amdano ers amser maith, a bod y pandemig wedi dangos hynny "Dangoswch y gallwch chi fod yn weithiwr effeithiol a chynhyrchiol yn gweithio gartref".

103. Fodd bynnag ~~amlygodd~~ Rhian Davies, hyd yn oed wrth weithio gartref, efallai y bydd angen addasiadau rhesymol pellach ar lawer o bobl anabl, er enghraifft dehongli laith Arwyddion Prydain. ~~Eglurodd~~ hefyd fod gweithio gartref yn dwyn risg yn ei sgîl y byddai pobl anabl yn cael eu hanghofio oni bai "the connections are set up for people to be fully part of the workplace, aware of what's going on and able to contribute to the strategic planning or take part in training" a rhannau allweddol eraill o fywyd gwaith. Mae hefyd yn bwysig ystyried nad yw gweithio gartref ar gael ar gyfer pob swydd, ac nad oedd mwyafrif y bobl yn gweithio gartref hyd yn oed pan oedd cyfnod y cyfyngiadau symud ar ei anterth.

104. Mae'r aelodau'n awyddus i weld yr enillion i bobl anabl o ganlyniad i weithio gartref yn cael eu cadarnhau i'r dyfodol. Fodd bynnag, maent yn poeni am y materion posibl o ran disgwyl i bobl anabl barhau i weithio gartref yn hytrach na chael yr opsiwn i ddychwelyd i'r gweithle, a/neu gael eu datgysylltu oddi wrth eu cydweithwyr a'u gweithleoedd unwaith y bydd swyddfeydd yn dechrau ailagor. Mae'r Aelodau'n teimlo'n gryf bod rhaid i gyflogwyr barhau i wneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo pobl anabl i weithio gartref, ond hefyd i'w cynorthwyo i ddod i'r gweithle, ac mai'r unigolyn ddylai benderfynu ble i weithio, yn hytrach na'i fod yn rhywbeth sy'n cael ei orfodi arnynt.

Argymhelliad 36. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymïadau i hygyrchedd (yn yr amgylchedd adeiledig a thrwy bolisi a gweithdrefnau sefydliad) fel maen prawf ar gyfer cael cyllid adfer, a monitro'r modd y mae busnesau'n cydymfurfio â'r rhain.

Argymhelliad 37. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb yn gyhoeddus i'r argymhellion ym mhapur briffio Engage to Change "Swyddi i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth - Rôl y GIG" a dylai ddatblygu cynllun cyflogaeth anableddau dysgu ac awtistiaeth ar gyfer sector cyhoeddus Cymru yn unol â'r cynllun ar gyfer y GIG a nodir yn y papur briffio.

Argymhelliad 38. Mae angen i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r enillion i bobl anabl sy'n deillio o weithio gartref. Fodd bynnag, rhaid iddi sicrhau bod gweithio o bell yn cefnogi pobl anabl ac nad yw'n eu heithrio ymhellach.

Cydraddoldeb rhywiol yn yr adferiad

105. Mae menywod ledled y DU wedi bod yn llawer mwy tebygol o golli eu swyddi ers dechrau'r pandemig nag ar unrhyw bwynt arall ers dechrau casglu ffigyrau ym 1995.

106. Mae'r data diweddaraf ar gyfer y DU yn **amlygu** bod 178,000 o fenywod wedi colli eu swyddi rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2020, 12.8 am bob 1,000 o ferched (nid yw data colli swyddi ar gyfer Cymru yn cael ei rannu yn ôl rhyw). Menywod oedd 45% o'r rhai a gollodd eu swyddi yn y chwarter hwn, sy'n sylweddol uwch nag yn y dirwasgiad diwethaf, pan oedd rhwng 30-35% o'r rhai a gollodd eu swyddi yn fenywod.

107. Yn yr un modd â phobl o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl anabl, gwaethygodd y pandemig yr anghydraddoldebau a oedd cael eu hwynebu eisoes gan fenywod. Dywedodd Dr Alison Parken **wrth y Pwyllgor** fod "women were more likely than men to be furloughed when they were working in the same kind of jobs", bod menywod beichiog wedi cael eu gorfodi "forced to take unpaid leave or use their holiday leave, or being forced on to statutory sick pay" ac mai dim ond 80% o'u tâl mamolaeth a dalwyd i rai menywod beichiog gan bod hyn yn unol â ffyrlo. Dywedodd Cerys Furlong **wrth y Pwyllgor** fod yr argyfwng "has really revealed the dependence on unpaid care that women often provide, particularly for children but also for elderly relatives and neighbours."

108. Rhybuddiwyd yr aelodau fod risg y bydd cymorth ail-greu'r llywodraeth yn cael ei gyfeirio'n anghymesur tuag at ddiwydiannau lle mae'r mwyafrif yn ddynion. Fe wnaeth Dr Parken **enghreifftio'r risg hon trwy ddweud** ei bod hi'n ofni, pan fyddai'r llywodraeth yn penderfynu beth oedd yn sector hyfyw y byddent yn dewis ynni, seilwaith traddodiadol, gweithgynhyrchu ac awyrofod sydd "essentially, sectors dominated by men" felly "women are going to miss out on this investment." Tynnodd Cerys Furlong sylw'r Aelodau at **adroddiad gan Grŵp Cyllideb y Merched**. Dywedodd **wrth y Pwyllgor** ei fod yn galw "for a care-led recovery, recognising the value of unpaid care and investing in social infrastructure such as social care and childcare."

109. Gall yr adferiad a arweinir gan sgiliau y mae'r adroddiad hwn yn galw amdano hefyd helpu i fynd i'r afael â rhai o'r anghydbwyseddau yn y gweithlu presennol os caiff y rhaglenni eu rheoli'n gywir. Dywedodd Alison **wrth y Pwyllgor** fod 99% o'r prentisiaid adeiladu yn y ddau chwarter diwethaf yn fechgyn a bod 86% o brentisiaid iechyd a gofal cymdeithasol yn ferched. Dywedodd wrth yr Aelodau fod yr anghyfartaledd hwn yn golygu:

“whatever we do, we’re going to have to be really cognisant of making sure that we include atypical workers in retraining, reskilling, or we are going to be part of exacerbating those sets of existing inequalities.”

110. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y risg y bydd blaenoriaethu'r sectorau lle mae'r mwyafrif yn ddynion ar gyfer cronfeydd ail-greu yn cael effaith ar ragolygon menywod a merched. Er y gall buddsoddi mewn seilwaith traddodiadol fod yn ysgogiad i adferiad economaidd, ac nad yw'r Pwyllgor yn ei hannog i beidio â gwario ar brosiectau seilwaith, mae'n hanfodol y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar fuddsoddiadau arloesol eraill y gellir eu gwneud a sicrhau ei bod yn ystyried y rhywiau trwy ei buddsoddiad mewn adferiad. Fel rhan o hyn, dylai buddsoddiad mewn hyfforddiant gynnwys cymhellion i annog pobl i ymgymryd â rolau lle mae pobl fel hwy yn cael eu tangynrychioli.

Argymhelliad 39. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y rhywiau'n ofalus wrth greu cynlluniau adfer a dyrannu cyllid adfer er mwyn osgoi unrhyw ragfarn ddjarwybod tuag at sectorau lle mae'r mwyafrif yn ddynion. Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cyllid ailadeiladu i:

- annog menywod i ymgymryd â mwy o rolau yn y sector adeiladu, yn enwedig y swyddi hynny a grëir gan fuddsoddiadau mewn seilwaith gwyrdd a
- chreu swyddi newydd mewn sectorau lle mae mwyafrif y gweithlu ar hyn o bryd yn cynnwys menywod fel mewn gofal a gofal plant

Argymhelliad 40. O ystyried y cyfraddau uwch nag erioed o fenywod sy'n colli swyddi ledled y DU yn ystod y pandemig, a bod y gyfradd hon yn llawer uwch nag yn ystod dirwasgiad 2008, dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei rhaglenni cymorth colli swyddi a chynghor gyrfaedd i sicrhau bod ganddynt adnoddau ac offer llawn i roi lefel uwch o gymorth wedi'i deilwra i fenywod.

Argymhelliad 41. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n gyhoeddus sut y bydd yn annog pobl i achub ar gyfleoedd hyfforddi a fydd yn eu harwain at swyddi mewn sectorau lle mae pobl fel hwy yn cael eu tangynrychioli.

5. Atal cynnydd sydyn mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc a chenhedlaeth sydd wedi'i chreithio

Eisoes rydym wedi gweld effaith ddinistriol Covid-19 ar obeithion a dyheadau pobl ifanc yng Nghymru. Mae gan Gymru eisoes ddwy garfan o bobl ifanc sy'n graddio yr effeithiwyd arnynt gan Covid-19 ac nid oes fawr o amheuaeth y bydd y pandemig a'r argyfwng economaidd y mae wedi'i greu yn effeithio ar fyfyrwyr sy'n gadael addysg am gryn amser eto. Mae cynnydd mewn diweithdra a gostyngiad mewn cynnyrch domestig gros yn ei gwneud hi'n anodd i bobl ifanc ymuno â'r farchnad lafur a chamu ymlaen yn eu gyrfaedd. Heb weithredu mae risg wirioneddol o genhedlaeth sydd wedi'i chreithio gan COVID.

111. Crynhodd Laura-Jane Rawlings o Youth Employment UK y risg o genhedlaeth sydd wedi'i chreithio a'r her i atal hynny gan ddweud:

"we can't afford to let anyone go—we have to just tighten our hold on our young people, we have to take more accountability ourselves as the system around them to make sure that everybody can progress and fulfil their potential. The reason why it's so complex is because you focus on one group at the distraction of another and we have to be really careful that we don't do that because so many young people need that support."

112. Fe wnaeth yr Athro Ewart Keep rybuddio'r Pwyllgor yn gyntaf bod rhaid dysgu gwersi o argyfwng ariannol 2008 am bwysigrwydd hanfodol cynnig profiad gwaith i bobl ifanc:

"because otherwise youth unemployment is going to become a really big problem, and we know that young people who remain unemployed for any length of time—their future career prospects, and any prospects, are scarred by it. So, it's something to try and avoid or minimise as best we can as much as possible."

- 113. Siaradodd** David Hagendyk o'r sefydliad Dysgu a Gwaith yntau am y "long-term scarring potential from young people having prolonged periods out of work that is storing up big social and economic problems for us in the future."
- 114.** Heb y cymorth cywir ar gyfer sgiliau, hyfforddiant a phrofiad gwaith, mae yna **risg go iawn o 'Genhedlaeth Covid' sydd wedi'i chreithio**. Mae perygl, wrth i'r genhedlaeth hon fynd yn hŷn, y bydd eu diffyg profiad gwaith cychwynnol yn parhau i fod wedi'i gloi i mewn i'w potensial i ennill cyflog trwy gydol eu bywydau, gydag ymchwil yn dangos bod cyfnodau o ddiweithdra yn dwyn cosb o ran cyflog i'r bobl ifanc hyn.
- 115.** Pobl ifanc oedd fwyaf tebygol o gael eu rhoi ar ffyrlo o dan Gynllun Cadw Swyddi Coronafeirws Llywodraeth y DU ar ddechrau'r pandemig - ledled y DU, cafodd 47% o'r swyddi a oedd wedi'u llenwi gan weithwyr 24 oed ac iau eu rhoi ar ffyrlo am o leiaf beth o'r amser rhwng 1 Mawrth a 30 Mehefin 2020, o'i gymharu â 32% o'r holl swyddi. Mae'r patrwm hwn wedi parhau **ledled y DU** dros y misoedd diwethaf yn awr bod mwy o'r gweithlu wedi dychwelyd i'w rolau, gydag 19% o'r swyddi sydd wedi'u llenwi gan gweithwyr sy'n 24 oed ac iau ar ffyrlo yn ôl y ffigyrau ar 31 Rhagfyr 2020, o'i gymharu â 13% o'r holl swyddi.
- 116.** Roedd **nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau** ymhlith pobl ifanc 18-24 oed yng Nghymru (y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a rhai hawlwr Credyd Cynhwysol) ym mis Rhagfyr 2020 yn 8.7%, sy'n sylweddol uwch nag ar ddechrau'r pandemig, gan bod nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau ar gyfer y grŵp oedran hwn yn 4.7% ym mis Mawrth. 2020.
- 117.** Amlygodd Dr Sioned Pearce **ymchwil TUC** sy'n dangos bod pobl ifanc 16-25 oed a oedd ar ffyrlo yng Nghymru "three times more likely to work in either accommodation and food, or arts, entertainment and recreation sectors where jobs are most at risk." Dywedodd y gallai'r adferiad o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc "be harder and take longer" i Gymru nag i wledydd eraill y DU.
- 118. Rhybuddiodd** yr Athro Keep hefyd y byddai'r problemau'n arbennig o ddwfn a pharhaus mewn rhai ardaloedd a sectorau: "that really needs to be thought about, because there are going to be colleges and providers in those parts of Wales that are going to be particularly hard hit, who are going to really be facing a climb up a very steep mountain."
- 119.** Roedd yr Athro Keep hefyd yn **rhagweld** diweithdra eang ymhlith graddedigion fel rhan o'r argyfwng diweithdra ieuenctid ar ôl Covid - yn enwedig graddedigion o rai meysydd pwnc a rhai sefydliadau. Y rheswm dros hyn yw bod graddedigion yn gyfran gynyddol o'r farchnad lafur ieuenctid ers 2008, ac yn cael

eu dadleoli gan oedolion profiadol sy'n cystadlu am swyddi. Dywedodd y byddai hyn yn sioc i lawer a "we're not really geared up for dealing with that."

120. Dywedodd Dafydd Evans o CollegesWales mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2020 ei bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru gymell cyflogwyr i gyflogi pobl ifanc, a chadw prentisiaid; fel arall byddent mewn perygl o ddod yn anafusion ("casualties") yn y farchnad lafur gan y gallai cyflogwyr dueddu i gadw staff mwy profiadol. Croesawodd y Pwyllgor y cyhoeddiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 11 Tachwedd ynglŷn â chymhellion i gyflogwyr gyflogi prentisiaid ifanc o dan 25 oed, fel rhan o becyn o gymorth swyddi a sgiliau gwerth £40 miliwn, a chyflwyno Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag.

Mesur yr effaith

121. Mae mesur gwir faint problem diweithdra ymhlith pobl ifanc yn her enfawr, yn anad dim oherwydd bod mesurau data ar ei hôl hi. Ar adeg yr ymchwiliad roedd yn rhy gynnar i weld effaith gynyddol diweithdra ymhlith oedolion ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc. Tynnodd Youth Employment UK sylw at y ffaith bod llawer o bobl ifanc eisoes dan anfantais cyn y pandemig a'u bod yn brin o hyder i allu cael gwaith, ac mae profiad yn dangos y bydd effaith gronnus diweithdra ymhlith pobl ifanc yn cymryd amser i ddod i'r fei.

122. Ddisgrifiodd Laura-Jane Rawlings o Youth Employment UK batrwm tair blynedd - roedd wedi cymryd tan 2011 i weld y cynnydd brig mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc o ganlyniad i argyfwng 2008. Dywedodd yr Athro Keep ei bod wedi cymryd 7-8 mlynedd i'r farchnad lafur ieuenctid wella'n llwyr, tra bod Laura-Jane Rawlings yn cwestiynu a oedd wedi bod yn adferiad llawn.

123. Fe wnaeth yr Athro Keep gymharu'r risg â'r sefyllfa yn y 1980au. Fe'i disgrifiodd fel "like a bath filling up" yn yr 80au ac "every year, more young people came into the labour market and only a relatively small proportion of them got a job. And so youth unemployment just kept on rising."

124. Mae mesur hefyd yn anodd oherwydd ni fydd llawer o bobl ifanc ddi-waith yn hawlio budd-daliadau. Canu Arolwg cyfrifiad llais ieuenctid UK Employment UK mai dim ond **19% o'r bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant oedd ar Gredyd Cynhwysol.**

125. Tynnodd Dr Pearce sylw at y broblem hon hefyd, gan gyfeirio at waith ymchwil gan Brifysgol Sheffield Hallam a nodi, "this could be for a number of reasons, but one very possible reason is the increase in precarious employment—

zero-hours contracts and periodic unemployment” a phobl ifanc yn cwmpo yn ôl ar eu teuluoedd i’w cefnogi pan fyddant allan o waith neu heb lawer o waith. Mae hyn yn gadael nifer enfawr o bobl ifanc sy’n cwmpo drwy’r rhwyd wrth fesur cynnydd tuag at gyflogaeth gynaliadwy.

126. Tynnodd Dr Pearce sylw hefyd at y ffaith bod data Eurostat yn arfer bod yn fesur pwysig ar gyfer diweithdra ymhlith pobl ifanc ac yn ei gwneud yn bosibl cymharu tebyg â’i debyg. **Ar ôl Brexit bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr ystadegau a gesglir yn parhau i alluogi’r gymhariaeth hon rhwng tebyg a’i debyg.**

Dysgu gwersi ar gyfer cymorth yn y dyfodol

127. Mae’n hanfodol dysgu gwersi dirwasgiadau blaenorol ac osgoi cynlluniau sy’n syml yn arwain at “ddrws troi” i bobl ifanc. **Meddai’r Athro Keep:**

“think quite hard about what happens when the first cohort of people graduate from Kickstart and a lot of them can’t get a job. What do you do? Do you put them back on a kickstarter, their next kickstarter?”

128. Rhaid i gyrsiau a lleoliadau fod yn ddigon hir i ddarparu sgiliau trosglwyddadwy, a chynyddu i’r eithaf y siawns y bydd pobl ifanc yn cael gwaith a datblygiad gyrfa. **Dywedodd** Dr Pearce y dylai Cymru edrych ar yr argymhelliad allweddol gan **Grŵp Cyngori’r Alban ar Adferiad Economaidd** ar gyfer **prentisiaethau dwy flynedd o ansawdd**, yn hytrach na’r lleoliadau gwaith chwe mis a gynigir gan Kickstart. Roedd yr Athro Keep yn gefnogol i waith caled gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynllun Kickstart yn cynnig lleoliadau o ansawdd da. Os yw cyflogwyr diegwyddor sy’n chwilio am lafur am ddim yn camfanteisio arno, bydd hyn yn mynd o chwith ac yn peryglu llwyddiant y cynllun.

129. **Dywedodd** Laura-Jane Rawlings, gyda’i chefnidir masnachol, ei bod yn cael ei tharo gan y diffyg gweithgarwch i fesur effaith buddsoddiadau mewn cynlluniau cyflogaeth i bobl ifanc, a phwysleisiodd yr effaith hynod negyddol arnynt:

“we’ve spent money on employability workshops, or curriculum vitae workshops, and that sort of training activity, and young people can end up gathering certificates from those programmes, from one provider to another provider, and just get cycled and cycled and cycled. And, actually, the impact of that cycling through is really negative on that young person, on their life earning chances, on their mental health and well-being, on their self-belief, and their personal systems, where they live and how they contribute to society.”

130. Dadleuodd Laura-Jane Rawlings fod system y farchnad agored wedi arwain at lawer o amrywiad mewn fframweithiau, safonau ac iaith, gyda'r angen i gyflawni strategaeth a pholisi cenedlaethol wedyn ar lefel leol. Mae'n hollbwysig bod y strategaeth yn cael ei llunio ar y cyd gyda phobl ifanc 14-24 oed: "You don't see a trainer manufacturer just making trainers without doing any sort of user testing."

131. Mae'r Pwyllgor hefyd yn tynnu sylw at ei argymhellion 'Adferiad i Bawb' ynghylch sicrhau bod y bobl ifanc sydd fwyaf ar y cyrion, sydd bellaf o'r farchnad lafur, yn chwarae rhan lawn yn y broses honno o lunio'r strategaeth ar y cyd. Mae ar Youth Employment UK eisiau gweld mwy o atebolrwydd i bobl ifanc, gyda llais ieuenctid yn greiddiol i'r strategaeth cyflogaeth ieuenctid, a sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn y strwythurau mesur ac atebolrwydd.

Peidio â gadael yr un person ifanc ar ôl

132. Dywedodd Laura-Jane Rawlings fod anghenion cymhleth llawer o bobl ifanc wedi cael eu gwaethygu gan y cyfyngiadau symud: "We're hearing from Children in Need and other charities that they've seen double the amount of phone calls during that lockdown period" ac ochr yn ochr â hynny bu diffyg cymorth addysgol a roddir fel arfer mewn pethau fel cydnerthedd, addysg a chyngor gyrfaoedd, sgiliau rheoli gyrfa.

"Young people with disadvantaged characteristics were already disadvantaged in the labour market; this will be exacerbated under COVID because they will be competing, then, as Ewart [Keep] says, with the 500,000 young people who've left education this summer, and will leave again next summer, and they will be in the labour market with young people who have barriers and other challenges to employment. So, those young people are the young people who really do need us."

133. Yn ogystal â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, mae'r papur briffio 'Class of 2020' gan Resolution Foundation amlygu y bydd y rhai sydd â'r lefelau isaf o gymwysterau yn cael eu taro'n llawer caletach na graddedigion lle mae cyflogaeth a chyflogau yn y cwestiwn. Daeth i'r casgliad: "the current crisis may reduce the employment chances of lower-skilled adults leaving education by more than a third, even years down the line when the direct economic effects of the crisis will (hopefully) have abated."

134. Dywedodd Helen Cunningham o Sefydliad Bevan fod yr opsiynau i'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn awr heb 5 TGAU da yn "really quite limited" a bod angen gwneud gwaith i ystyried yr ystod gyfan o lwybrau ac opsiynau sy'n agored iddynt.

135. Awgrymodd Dr Pearce y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y system frysennu a fabwysiadwyd gan y rhaglen Developing The Young Workforce yn yr Alban, sy'n cynnwys y 'Warant Person Ifanc' o 12-24 mis o 'gyflogaeth, addysg, hyfforddiant neu gyfle gwirfoddoli'.

136. Fe wnaeth David Hagendyk hefyd **godi'r syniad** o warant cyfle gwaith ("job opportunity guarantee") debyg i bobl ifanc yng Nghymru i fynd i'r afael â'r bygythiad o greithio tymor hir. Er ei fod yn cydnabod bod hynny'n ddrud, dywedodd "it isn't rocket science" i awgrymu hynny fel maes ar gyfer cymorth a buddsoddi. Yn gysylltiedig â hynny roedd am weld buddsoddi mewn ehangu lleoedd coleg, prifysgol a hyfforddi o ansawdd da, "not just to warehouse young people in college until the crisis starts to ease". Bydd buddsoddi mewn darpariaeth ar lefel cymunedau lleol yn bwysig i helpu'r rhai sy'n llai hyderus i gymryd y cam yn ôl i mewn i leoliad addysgol.

137. Dywedodd David Hagendyk ei bod yn iawn i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar adeiladu ar y seilwaith presennol yn hytrach na chreu unrhyw beth newydd (ac eithrio'r cynllun peilot Cyfrif Dysgu Personol), ac i'r holl asiantaethau gydweithio'n agos yn weithredol i sicrhau bod dim bylchau, ac nad yw'r un person ifanc yn syrthio drwy'r craciau.

138. Un o'r **argymhellion allweddol** o ymchwil Dr Pearce oedd bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio dull mwy strategol o ymgysylltu â sefydliadau'r gymdeithas sifil sydd eisoes yn cefnogi pobl ifanc sydd ar y cyrion, ac yn hytrach na dull cul sy'n canolbwyntio ar 'gyflogadwyedd', ei bod yn mabwysiadu dull mwy cyfannol sy'n mynd i'r afael â meithrin hyder a grymuso, yn ogystal â mynd i'r afael ag achosion strwythurol diweithdra ac ansefydlogrwydd.

139. Cyfeiriodd Dr Pearce at Quebec, Canada fel enghraifft o gynnwys cymdeithas ddinesig nid dim ond wrth gyflawni prosiectau ond mewn gwaith strategol ac wrth ddatblygu polisi, ac ymchwil yn nes adref o Brifysgol Sheffield Hallam ar **"The Value of Small"**. Nododd fod adroddiad gan Gyngor Cymru o Wasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol wedi canfod bod sefydliadau'r gymdeithas sifil yn ardaloedd awdurdodau lleol yn cyrraedd targedau polisi, ond "were not involved in the policy in any way whatsoever" a bod hyn yn "missed trick" go iawn.

140. Dywedodd Dr Pearce **fod ymchwil ar ôl 2008 gan wledydd** a oedd yn cynnwys Sweden, yr Almaen, yr Eidal a Gwlad Pwyl wedi dangos bod mabwysiadu 'dull strwythurol' o fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn dwyn canlyniadau mwy ffafriol; "viewing youth as something to be invested in, rather than a problem to be solved." Yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfrifoldeb unigol i

ymgeisio am nifer benodol o swyddi, mae'r dull hwn yn canolbwyntio'n ehangach nag ar gyflogaeth yn unig.

141. Nododd Dr Pearce, er bod y gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru wedi bod “broadly favourable”, fod beirniadaeth wedi ymwneud â diffyg targedu a chyflawniadau a wnaed ond a allai fod wedi cael eu gwneud beth bynnag. Gallai gweithio'n strategol gyda sefydliadau ar lawr gwlad helpu i atal hyn ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol.

Gwneud i hyfforddiant weithio i bawb

142. Dywedodd Ali Abdi o Citizens Cymru Wales wrth y Pwyllgor fod angen i brentisiaethau hyfforddi gael eu gwneud yn fwy hygyrch i bobl ifanc o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Eglurodd Ali mai un o'r rhwystrau mawr i hyn oedd mynediad at wybodaeth am gyfleoedd, hynny yw “you like and put things on the Welsh Government website, Careers Wales” ond nid yw pobl ifanc yn edrych yn y lleoedd hynny. Aeth Ali ymlaen i ddweud wrth y Pwyllgor y dylai pobl ifanc gael eu cyflogi a bod â rôl o ran lledaenu gwybodaeth am y cyfleoedd hyn gan ddweud “young people know young people best in terms of how to reach out to them”.

143. Er bod gan Gyrfa Cymru ganllaw ar-lein i brentisiaethau gan gynnwys Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag lle gallwch chwilio am gyrsiau, mae'r Aelodau'n pryderu nad yw'r wybodaeth hon yn cyrraedd pob person ifanc, ac yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, ar lwyfannau y maent eisoes yn ymgysylltu â hwy.

144. Fe wnaeth Ali Abdi hefyd amlygu problem y ‘bwlch yn y drydedd flwyddyn’ i'r Aelodau. Mae llawer o gymwysterau'n golygu bod angen i fyfyrwr neu fyfyrwraig fynd i mewn i rôl â thâl gyda chofrestriad proffesiynol (er enghraifft gyda Chyngor Gofal Cymru) neu i mewn i swydd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i gadw'r cymhwyster yn berthnasol. Dywedodd Ali wrth yr Aelodau fod llawer o bobl ifanc yn ei chael yn anodd cael y rolau hyn â thâl pan ydynt yn gorffen y cwrs a'u bod felly'n diweddu mewn swyddi â sgiliau isel neu'n ddi-waith.

145. Caiff y ‘bwlch yn y drydedd flwyddyn’ ei achosi yn y bôn gan anallu rhywun i gael swydd yn ei ddewis yrfa, felly mae'n effeithio'n fwyaf dwys ar bobl sydd eisoes dan anfantais yn y farchnad lafur, er enghraifft oherwydd eu hil, am bod ganddynt anabledd neu nodwedd warchodedig arall.

146. Fel y mae'r adroddiad hwn wedi'i archwilio sawl gwaith, pan fo diweithdra'n codi y bobl a oedd eisoes dan anfantais fydd y rhai yr effeithir arnynt yn fwyaf difrifol. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda chydweithwyr a chyflogwyr i gynorthwyo pobl â nodweddion gwarchodedig i bontio rhwng hyfforddiant a gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio eu cymwysterau'n llwyr.

Argymhelliad 42. Rhaid i atal 'cenhedlaeth Covid' sydd wedi'i chreithio fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad, gyda chynlluniau cadarn i warantu hyfforddiant a phrofiad gwaith o ansawdd da ar gyfer pobl ifanc.

Argymhelliad 43. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i asesu'r posibilrwydd o gyflwyno Gwarant Cyfle leuencid ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru fel rhan o'i strategaeth a'i rhaglenni cymorth i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Argymhelliad 44. Dylai Llywodraeth Cymru wella ei gwaith strategol gyda chymdeithas ddinesig Cymru a phobl ifanc eu hunain wrth ddatblygu ei dull polisi a'i strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Argymhelliad 45. Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth i atal 'cenhedlaeth Covid' sydd wedi'i chreithio rhaid i Lywodraeth Cymru greu strategaeth:

- Sy'n cynnwys ymyriadau wedi'u targedu gyda'r nod o gefnogi cyflogadwyedd y carfannau o bobl sy'n gadael addysg yn ystod y pandemig ac yn fuan wedi hynny.
- Sy'n defnyddio dull sy'n mynd y tu hwnt i fesurau cyflogadwyedd i feithrin hyder a chydnerthedd pobl ifanc a mynd i'r afael â'r materion strwythurol sylfaenol
- Sy'n sicrhau bod cynlluniau newydd sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn atal y patrwm mynd a dod lle mae pobl ifanc yn symud i mewn ac allan o amryw gynlluniau cymorth, gan gynnwys trwy sicrhau bod cyrsiau a lleoliadau yn ddigon hir, a'u bod yn cefnogi dilyniant yn llawn.
- Y mae'n rhaid ei llunio ar y cyd gyda phobl ifanc 16-25 oed, gan gynnwys y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, ac y mae'n rhaid iddi gynnwys dangosyddion a chanlyniadau y gellir eu mesur yn glir, gyda phobl ifanc hefyd yn ymwneud â'r mecanweithiau atebolrwydd.
- Sy'n tynnu ar arfer gorau o'r DU a'r tu hwnt

Argymhelliad 46. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith i sicrhau bod y cynllun Kickstart yn cynnig cymaint o gyfleoedd o ansawdd da â phosibl i bobl ifanc yng Nghymru.

Argymhelliad 47. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod ganddi, a'i bod yn cyhoeddi, darlun clir o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc y gellir hefyd ei gymharu'n uniongyrchol â gwledydd eraill y DU ac Ewrop.

Argymhelliad 48. Dylai Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru wella'r modd yr eir ati i hyrwyddo cyrsiau hyfforddi i bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig. I wneud hyn rhaid iddynt weithio gyda phobl ifanc o'r cymunedau hynny.

Argymhelliad 49. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chydweithwyr a chyflogwyr i gynorthwyo pobl â nodweddion gwarchodedig i bontio rhwng hyfforddiant a gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio eu cymwysterau'n llwyr.

6. Adferiad Trafnidiaeth

Mae'r pandemig wedi arwain at ostyngiad enfawr yn nifer y teithwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus sydd yn ei dro wedi arwain at gwymp refeniw tocynnau i weithredwyr. Fodd bynnag, mae'r rhwydwaith yn parhau i fod yn gyswllt hanfodol â gwaith, siopa a gwasanaethau hanfodol eraill i lawer ledled Cymru. Er mwyn sicrhau gweithrediad parhaus y rhwydwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth brys sylweddol i gwmnïau bysiau ac ym mis Chwefror fe gymerodd is-gwmni i Trafnidiaeth Cymru reolaeth uniongyrchol ar fasnachfaint Cymru a'r Gororau. Mae'n hanfodol bod y rhwydwaith yn cael adferiad o'r pandemig ac yn parhau i gynnig y gallu i bobl deithio i'r gwaith, digwyddiadau adloniant, i ymweld â ffrindiau a theulu ac at ddibenion di-rif eraill.

147. Mae adferiad trafndiaeth gyhoeddus yn bwysig ar gyfer cynhwysiant a chydaddoldeb a rhaid ei deilwra i gefnogi adferiad economaidd. Nid yw tua 25% o'r aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar gar ac maent yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae llawer o bobl nad ydyn nhw'n gallu gweithio gartref hefyd yn ddefnyddwyr bysiau. Pwysleisiodd Christine Boston o Transform Cymru ei fod yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol, a dywedodd Rhian Davies o Anabledd Cymru fod yn rhaid i adferiad trafndiaeth a pholisi gweithio o bell gynnwys ymrwmiadau i gynhwysiant.

148. Y materion allweddol ar gyfer adfer trafndiaeth yw maint yr ansicrwydd ynghylch y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn y dyfodol, a'r angen i symud cynlluniau tymor hir ymlaen â data cyfyngedig, a hynny i ddechrau yn adlewyrchu newidiadau dramatig iawn mewn ymddygiad teithio yn ystod misoedd cynnar y pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfleu ei nod yn o ddatblygu rhwydwaith trafndiaeth integredig, gynaliadwy yn eglur yn y fersiwn ddrafft o Llybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth newydd ar gyfer Cymru a 'chynlluniau bach' cysylltiedig ar gyfer cyflawni, ond sut ydyn ni'n cynllunio ar gyfer dyfodol lle mae'r galw a phatrymau teithio mor ansicr?

149. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ddiwedd mis Medi gan grwpiau eiriolaeth a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau teithwyr, a chan arbenigwyr academiaidd. Roedd Cynllun Bysiau Brys Llywodraeth Cymru yn cynnal gwasanaethau, ac ymhen mis roedd wedi cyhoeddi'r symudiad i ddod â rheilffyrdd dan berchnogaeth gyhoeddus erbyn mis Chwefror 2021. Yn ogystal â darparu cymhorthdal ar gyfer trafndiaeth bysiau a rheilffyrdd, ac ariannu mesurau teithio llesol mewn ymateb i reolau cadw pellter cymdeithasol Covid-19, mae camau gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu mynediad at y Gronfa Cymorth Dewisol wedi cael eu croesawu gan y sectorau tacsï a hurio preifat. Yn amlwg mae ansicrwydd ynghylch cyllid refeniw yn y dyfodol ar gyfer bysiau a rheilffyrdd hefyd yn creu rhwymedigaeth anhysbys, a risg os nad yw'n fforddiadwy - mae'r Pwyllgor yn ymdrin â'r materion hyn yn fwy manwl yn ei adroddiad ar Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22.

150. Cydnabyddir yn eang bod yr arian cyhoeddus hwn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar siâp rhwydwaith trafndiaeth y dyfodol, pwy y mae'n eu gwasanaethu a sut i greu "system fwy strategol", ac fel gwnaeth Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ei ddisgrifio, "exercise our muscle". Roedd tystion hefyd yn teimlo y gallai buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus (a fydd bob amser yn cael cymhorthdal o bwrs y wlad) greu swyddi a helpu'r economi.

151. Bydd yn rhaid i strategaeth yn y dyfodol fod yn ystwyth a chydnerth, ond dylai symud i ffwrdd o dull traddodiadol cynllunio sy'n ymateb i'r galw alw ac 'a arweinir gan ragolygon' yn seiliedig ar hen ragdybiaethau, a thuag at ddarparu atebion a fydd wedyn yn siapio'r galw. Dywedodd yr Athro Lyons "you can see when you change the supply that the demand does respond." Fe wnaeth ef nodweddu'r ansicrwydd dwfn fel cyfle i'r Llywodraeth:

"...it's quite legitimate for a Government, nationally or locally, to take more ownership over a vision-led approach, and the challenge then is to explore that uncertainty rather than to ignore it or sidestep it. And that can be done and is being done increasingly through the use of scenario planning, where you allow different combinations of factors and drivers of change to play out and you then start to see, 'Well, Wales may face a series of very different futures. How can we ensure the types of policies and investments we make are resilient to those different futures so that we avoid stranded assets and create the right opportunity for future generations?'"

Diogelwch a Hyder

152. Yr hyn sy'n allweddol bwysig ar gyfer adferiad yw'r angen i **dawelu meddyliau pobl am ddiogelwch trafndiaeth gyhoeddus**, a hyrwyddo a marchnata trafndiaeth gyhoeddus i ail-feithrin ymddiriedaeth, gan gynnig opsiynau o ran prisiau a thocynnau sy'n adlewyrchu patrymau teithio newydd.

153. ~~Nododd~~ David Beer o Ffocws ar Drafnidiaeth fod cyfundrefnau glanhau yn llai gweladwy ar drafnidiaeth gyhoeddus nag yn y sector lletygarwch, a allai fod yn ffactor ar gyfer hyder teithwyr, ond mewn arolygon wythnosol, dywedodd 7 ymhob 10 o bobl ar y pryd (diwedd mis Medi 2020) eu bod yn bwriadu gweithio gartref llawer mwy yn y dyfodol. Pwysleisiodd yr Ymgyrch dros Drafnidiaeth Well (CBT) a Transform Cymru bwysigrwydd magu hyder ynghylch diogelwch trafndiaeth gyhoeddus: **galwodd** Norman Baker o CBT am well negeseuon gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

154. Nododd sawl tyst y gallai pwrpas trafndiaeth gyhoeddus newid ar ôl y pandemig, er enghraifft yng ngoleuni patrymau gweithio o bell ac o bosibl mwy o bobl yn ei defnyddio ar gyfer hamdden yn hytrach na theithio er mwyn cymudo. ~~Dywedodd~~ yr Ymgyrch dros Drafnidiaeth Well fod tystiolaeth o adferiad mewn defnyddio'r rheilffyrdd ar gyfer hamdden ond nid ar gyfer cymudo'n "very clear indication" o dueddiadau yn y dyfodol. Rhaid i drafnidiaeth hwyluso'r siwrneiau y mae ar bobl eisiau eu gwneud yn ogystal â'r rhai y maent yn gorfod eu gwneud, gyda Ffocws ar Drafnidiaeth yn ~~pwysleisio~~ pwysigrwydd cael dealltwriaeth lawn am y galw newydd hwn. Rhaid i opsiynau tocynnau adlewyrchu hyn, gydag estyniad ar 'drwyddedau' a phrisio un cymal. ~~Dywedodd~~ David Beer fod angen i'r gwaith diwygio prisiau a wnaed fel rhan o adolygiad rheilffordd Williams "be brought out and accelerated."

155. ~~Dywedodd~~ Norman Baker fod angen i'r system drafnidiaeth gyfan newid i gefnogi gweithio o bell yn y tymor hir ac osgoi'r risg o adferiad sy'n seiliedig ar geir. Yn ogystal â negeseuon gwell a thocynnau mwy hyblyg, ~~dwedodd~~ fod methiant i godi treth tanwydd yn rheswm allweddol dros newid moddol i ffwrdd oddi wrth drafnidiaeth gyhoeddus yn ôl at ddefnyddio ceir, ac mai mater o anfon yr arwyddion economaidd cywir ydoedd.

156. Wrth drafod y newidiadau a ddaeth yn sgîl y cyfyngiadau symud, ~~meddai~~ Christine Boston o Transform Cymru, "We needed this to happen anyway", o ystyried lefelau tagfeydd, gorlenwi, ansawdd aer gwael a thwff trefol wedi'i gynllunio:

“We’ve hit a reset point. We have seen a step change and we need that to continue. So, I think we need to look at the bigger picture and do everything we can to keep some of those positive habits going forward.”

Hybiau trafndiaeth a gweithio o bell

157. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth sylweddol am agweddau cadarnhaol a negyddol ar weithio o bell ar gyfer adfer trafndiaeth, gan benderfynu cynnal ymchwiliad ar wahân i effeithiau cynigion Llywodraeth Cymru bod 30 y cant o bobl yn parhau i weithio o bell, naill ai o’u cartref neu o ‘ganolbwynt cymunedol’ lleol. Bydd yr ymchwiliad hwnnw’n adrodd yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2021. Roedd tystion yn cydnabod y manteision a’r anfanteision posibl, ond roedd llawer o ffocws ar y cyfleoedd ‘seiliedig-ar-le’ yr oedd yn eu cyflwyno. Meddai Ryland Jones o Transform Cymru:

“That gives us an opportunity to create the idea of this concept of 20-minute neighbourhoods—having lots of services within a relatively small area of where people live. That can give us a lot more equality in terms of how people access services, and reduce the demand that we’ve seen on, particularly, the roads network.”

158. Fodd bynnag, os na fydd yr arfer o weithio o bell yn cael ei sefydlu yn y tymor hir, mae’r cwestiwn yn codi beth ddylid ei wneud i gefnogi newid moddol a chefnogi datgarboneiddio. Barn Christine Boston oedd, yng ngoleuni’r diffyg capasiti yn y rhwydwaith cyn Covid-19, y byddai effaith cynigion Llywodraeth Cymru bod 30% o bobl yn parhau i weithio o bell yn “negligible”, a’r pryder mawr oedd sut i ysgogi pobl i symud eto i gael adferiad economaidd.

159. Mae gwneud trafndiaeth gyhoeddus yn ddeniadol yn golygu canolbwyntio ar flaenoriaethau teithwyr. Tynnodd David Beer sylw at y ffaith bod capasiti llai o lawer yn golygu bod prydlondeb wedi cynyddu i 95 y cant, a bod hyn yn gyfle i nodi mannau cyfyng mewn amserlenni a gwneud addasiadau a fyddai’n ei gwneud yn bosibl cynnal perfformiad yn y cyfnod adfer. Dylid defnyddio gwybodaeth ddigidol a Wi-fi i roi gwell gwybodaeth i deithwyr a gweithredwyr ar gyfer rheoli teithiau, gan gynnwys ymdrin â phryderon yn y dyfodol ynghylch gorlenwi. Dywedodd y dylai’r ffocws fod ar ddarparu gwasanaeth cynhwysol a oedd yn “agile and flexible and responsive”, gan ddarparu ar gyfer y rhai sy’n hŷn neu sydd ag anghenion symudedd.

Mesurau teithio llesol dros dro

160. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y cyllid a roddwyd i awdurdodau lleol ar gyfer mesurau teithio llesol dros dro pan oedd y pandemig ar ei anterth wedi cael ei roi ar frys. Yn y cyfnod adfer mae'n hanfodol gwerthuso eu heffeithiolrwydd i ddysgu ar gyfer y dyfodol. Yn ystod gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr, **cydnabu'r** Dirprwy Weinidog fod gwerthuso canlyniadau tymor hir buddsoddiad mewn teithio llesol yn faes y mae angen i Lywodraeth Cymru wella arno yn fwy cyffredinol.

161. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y **gall rhai newidiadau sylweddol mewn ymddygiad fod yn bosibl gyda buddsoddiad cymharol fach**, e.e. o ran sut mae disgyblion yn teithio i'r ysgol o ganlyniad i gau strydoedd ysgolion. **Dywedodd** Ryland Jones o Transform Cymru a Sustrans Cymru fod monitro a gwerthuso cyllid Covid-19 yn effeithiol yn hanfodol i ddarparu'r data caled.

162. Roedd argymhelliad tri yn adroddiad y Pwyllgor ar Ddatgarboneiddio Trafnidiaeth ym mis Gorffennaf 2020 yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn, ac mewn **ymateb** fe ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu diweddariad ar ôl i awdurdodau lleol gyflwyno hawliadau chwarter 2 ym mis Hydref 2020. Yn dilyn cyhoeddi'r data chwarterol ar gynnydd wrth gyflawni cynlluniau bydd adroddiadau blynyddol ar ganlyniadau'n cael eu cyhoeddi o fis Medi 2021. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at adolygu data cychwynnol ar gynnydd gan Lywodraeth Cymru, ond bydd yn bwysig i'r Chwched Senedd graffu ar y canlyniadau tymor hwy, e.e. effaith ar ddatgarboneiddio, newid moddol, ansawdd aer a thagfeydd.

163. Yn aml, y pethau bach sy'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr. **Rhoddodd** Norman Baker o'r Ymgyrch dros Dtrafnidiaeth Well enghreifftiau o lefelau cymharol fach o fuddsoddiad mewn cynlluniau bach yn cael effaith fawr:

“...small interventions that don't cost very much money actually have a much better payback and have more immediate impact than grandiose schemes that maybe take 10 or 20 years to deliver. This can be a cycle lane, it can be a bus lane, it can be sorting out a congested junction.”

164. Tynnodd sylw hefyd at enghraifft ddi-gost o ostyngiad yng nghost tocyn tymor rheilffordd yn ysgogi newid moddol o'r ffordd i'r rheilffordd gan arbed costau trwy osgoi gorfod uwchraddio'r ffordd. Roedd tystion yn cytuno y dylid ystyried bod buddsoddi mewn teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn bethau

ategol ar gyfer ysgogi newid moddol, yn hytrach na'u bod yn flaenoriaethau sydd mewn cystadleuaeth â'i gilydd ar gyfer cael buddsoddiad.

165. Tynnodd Nick Richardson a'r Athro Glenn Lyons ill dau sylw at yr angen i wneud bysiau'n fwy deniadol na defnyddio ceir, gan nodi hefyd bod bysiau yn ddull teithio hyblyg sy'n gallu addasu'n haws i batrymau teithio sy'n newid.

Meddai Nick Richardson: "if you make the product right, people will use it."

Dywedodd hefyd y dylid cymryd gofal i beidio â chyflwyno unrhyw fesurau teithio llesol mewn ymateb i Covid-19, megis cau strydoedd, a oedd yn tanseilio hyfywedd bysiau.

Arloesi

166. **Dywedodd** yr Athro Lyons na ddylai arloesi ganolbwyntio'n ormodol ar atebion technolegol, ond yn hytrach ar "changes in social practices and opportunities." Rhybuddiodd hefyd rhag tybio bod rhaid cael datrysiad trafndiaeth i broblem drafnidiaeth:

"I would call it a triple-access strategy where you're really understanding the value of land-use planning and digital connectivity in helping alleviate the pressures on the transport system."

167. **Dywedodd** y dylai buddsoddiad yn y dyfodol ganolbwyntio ar y dull mynediad triphlyg hwnnw. **Caiff y Pwyllgor ei galonogi gan y ffaith bod adroddiad Comisiwn Burns yn cyfeirio'n benodol at y model mynediad triphlyg** – gan gyfeirio at waith yr Athro Lyons - a chydabyddiaeth i bwysigrwydd cysylltedd digidol a chynllunio defnydd tir yn yr ymgynghoriad ar Strategaeth Drafnidiaeth newydd ar gyfer Cymru. Bydd yn rhaid aros i weld i ba raddau y caiff y rhain eu hintegreiddio'n effeithiol mewn polisi a gweithgarwch cyflawni.

168. **Dywedodd** Christine Boston o Transform Cymru hefyd na fydd newid i gerbydau trydan yn datrys problemau tagfeydd ac ansawdd aer, ac mai'r arloesedd yr oedd ei angen ym maes trafndiaeth oedd: "things like demand-responsive buses, building our community transport services, helping them to grow, bringing in more e-bikes, e-scooters and using every opportunity available for sustainable transport."

Integreiddio

169. Mae integreiddio'n hanfodol o fewn y rhwydwaith trafndiaeth, ar gyfer tocynnau a chysylltiadau rhwng gwasanaethau, ac integreiddio polisi ar draws meysydd cynllunio defnydd tir, addysg ac iechyd.

170. Mae'r fersiwn ddrafft o'r Strategaeth Drafnidiaeth ar gyfer Cymru yn tynnu sylw at rôl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF), gan nodi "Fel rhan o'r broses o'i roi [y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol] ar waith, byddwn yn cydweithio â meysydd cynllunio, iechyd ac addysg". Mae'n cyfeirio at gamau gweithredu fel "[Hwyluso] trefniadau gwaith cartref" a sicrhau bod datblygiadau newydd yn y sector cyhoeddus "yn cael eu lleoli yn agos at y mannau lle mae pobl yn byw, a darparu ar gyfer trafnidiaeth sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau".

171. Mae integreiddio polisïau, ac yn arbennig integreiddio â chynllunio defnydd tir, wedi cael ei godi dro ar ôl tro gan y pwyllgor hwn a'i ragflaenydd. Cydnabyddir ei fod yn mater anodd. Croesewir yr uchelgais yn y strategaeth drafnidiaeth ddrafft. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen ei dwyn i gyfrif ar droi bwriadau da yn weithredoedd ymarferol lle mae'r uchelgais ar gyfer rhwydwaith integredig yn y cwestiwn.

172. Dywedodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth mewn sesiwn graffu gyffredinol ar 25 Tachwedd 2020 ei fod yn rhywbeth i bwysu ar y Llywodraeth mewn perthynas ag ef, ond bod her o ran taro cydbwysedd rhwng gweithio trawsadrannol a chynnal cyflymder wrth gyflawni. Cydnabu Simon Jones o Lywodraeth Cymru bwysigrwydd gweithio ar draws meysydd polisi y tu mewn i'r Llywodraeth a'r tu allan, i flaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael yn y dyfodol i gyflawni'r strategaeth a chynyddu i'r eithaf y canlyniadau y mae'n eu dwyn.

173. Mae'r Pwyllgor yn dal i fod â phryderon ynghylch effeithiolrwydd y cydgysylltu rhwng y cyfranwyr sy'n ymwneud â chyflawni integreiddio - Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, Trafnidiaeth Cymru - fel yr amlygwyd yn ei adroddiad yn 2019 'Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y Dyfodol'. Mae'r broses o ddatblygu cyrff trafnidiaeth strategol rhanbarthol wedi cymryd amser, ac er bod deddfwriaeth yn ei lle, mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn bell o fod yn barod i gyflawni, ac yn amodol ar ganlyniad etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol sydd ar ddod. Pwysleisiodd yr Arglwydd Burns wrth y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd bwrw ymlaen â threfniadau llywodraethu ochr yn ochr â seilwaith wrth weithredu argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru.

174. Ym mis Tachwedd disgrifiodd y Gweinidog "huge movement" gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a dywedodd y Dirprwy Weinidog fod llawer o waith wedi'i wneud ar alinio trafnidiaeth a datblygu economaidd. Y gobaith oedd y byddai gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig chwarae "a significant role" ac y byddai perthnasoedd yn "coherent from the get-go". Cydnabu'r Gweinidog bwysigrwydd cydgysylltu, gan nodi bod manylion y cyfrifoldeb am swyddogaethau yn destun cyd-ddylunio ac ymgynghori â rhanddeiliaid ar yr adeg honno. A hwythau'n cael

eu tanategu gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Strategaeth Drafnidiaeth newydd ar gyfer Cymru, gallai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn gyfryngau cyflawni effeithiol, ac mae'r Pwyllgor am weld y gwaith hwn yn parhau ar fyrder.

Cyllid tymor hir

175. Daeth yr adroddiad ar ddatblygu Trafnidiaeth Cymru gan y Pwyllgor yn 2019 i'r casgliad y byddai ymrwymiad ariannu tymor hir (pum mlynedd) ar gyfer awdurdodau lleol, gan adlewyrchu cyllid dangosol Trafnidiaeth Cymru dros gyfnod o bum mlynedd, yn rhoi cymorth gwell i harneisio sgiliau ac arbenigedd ac yn hwyluso'r broses o gynllunio seilwaith trafnidiaeth yn y tymor hir.

176. Dywedodd Christine Boston o Transform Cymru hefyd y dylid trosglwyddo cyllid aml-flwydd i lawr o awdurdodau lleol i'r rhai a ariennir, e.e. gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol yr oedd angen y sefydlogrwydd cryfach hwnnw arnynt. Tynnodd Nick Richardson sylw at y ffaith bod llawer o wasanaethau yn dod yn anhyfyw cyn y pandemig, ac yn y cyfnod adfer "buses will need significant funding or they will simply disappear."

177. Dywedodd Ryland Jones fod rhai awdurdodau lleol mwy arloesol yn amcanu at wneud mesurau trafnidiaeth gynaliadwy yn rhai parhaol, ac y gallai sicrwydd o ran cyllid roi mwy o gydnerthedd i gadw at y mesurau hynny am yn hwy a rhoi hwb ar gyfer newid mewn ymddygiad. Dywedodd hefyd fod ffrydiau cyllid refeniw yn hanfodol i roi cymhelliad i newid ymddygiad, nid dim ond arian ar gyfer seilwaith cyfalaf.

178. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad oes atebion hawdd i'r materion ariannu hyn, ond **mae'n hanfodol i gefnogi consensws trawsbleidiol ar benderfyniadau buddsoddi strategol y gellir eu sefydlu'n barhaol dros y tymor hwy.** Hoffai weld Llywodraeth Cymru yn y tymor presennol yn sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn 2021 mor gryf â phosibl i Lywodraeth nesaf Cymru wthio ymlaen yn gyflym â phrosiectau seilwaith strategol.

179. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru yn nodi cynlluniau ar gyfer Datganiad am y Cronfeydd sydd ar gael (SoFA) dros bum mlynedd sy'n sail i'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol nesaf ar gyfer Trafnidiaeth. Ei ddiben yw "rhoi mwy o sicrwydd ynghylch y cyllid sydd ar gael yng nghyfnod y cynllun cyflawni fel y gall Trafnidiaeth Cymru gynllunio ar gyfer y dyfodol." Mae'n nodi'r anhawster o ran darparu sicrwydd ynghylch cyllidebau, ond dywed y bydd yn darparu "senarios cyllideb uchel, canolig ac isel" i alluogi Trafnidiaeth Cymru i gynllunio.

180. Nid yw'n glir i'r Pwyllgor pam na ellir defnyddio dull tebyg ar gyfer elfennau allweddol o wariant trafndiaeth awdurdodau lleol, o gofio'r manteision tebygol o ran sicrhau gwerth am arian.

181. Yng ngoleuni'r newidiadau seismig a ddaeth yn sgil Covid-19, gofynnodd y Pwyllgor hefyd am sicrwydd bod cynlluniau seilwaith presennol yn parhau i fod yn addas ar gyfer y diben yng ngoleuni rhagdybiaethau ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig, Metro De Cymru yn benodol. Dywedodd James Price, Trafnidiaeth Cymru wrth y Pwyllgor ar 18 Tachwedd **nad oedd y cynnig gwreiddiol ar gyfer y system Metro yn un ar gyfer system cludo torfol i mewn ac allan o Gaerdydd yn unig**, er y gallai ddarparu hynny o hyd, **ac y byddai'r Metro yn gallu 'bod yn hyblyg' i gyd-fynd ag adferiad economaidd a'r galw yn y dyfodol.**

Diwygio deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau bysiau

182. Dywedodd Nick Richardson ei bod yn debygol mai'r math mwyaf defnyddiol o arloesi oedd "regulatory change" a ffordd wahanol o feddwl am yr un hen faterion. **Roedd ef yn gweld bod** rôl i ddiwygio rheoleiddiol fynd i'r afael â 'dryswch' y model gwasanaethau bysiau cyfredol ac ymdrechion i ysgogi gweithredwyr i weithio gyda chyfranwyr eraill i gyflawni'r hyn y mae ei angen ar ddefnyddwyr.

183. Mynegodd Gweinidogion a swyddogion obaith y bydd y cytundeb partneriaeth newydd o dan y Cynllun Bysiau Brys (BES2) – a oedd yn cyflwyno rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus (PSOs) y mae rheoliadau yn caniatáu iddynt fod ar waith am ddwy flynedd - yn cyflawni yn y tymor byr heb yr angen am ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, **dywedodd** Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mai'r prawf fyddai a fyddai gweithredwyr yn torri i ffwrdd oddi wrth y trefniant partneriaeth hwnnw, a hefyd "currently the framework just doesn't lend itself to the totality of Welsh Government policy in terms of contracting all services, including commercial services." Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd fod yna rai "fundamental issues" y byddai angen deddfu ar eu cyfer.

184. Dywedodd yr Arglwydd Burns wrth y Pwyllgor hefyd, "there is probably going to have to be a new way of regulating buses in terms of how you determine which are the key routes." Argymhellodd Comisiwn Burns y dylid ailgyflwyno darpariaethau'r Bil Gwasanaethau Bws (Cymru) a dynnwyd yn ôl, a **dywedodd** Peter McDonald o ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, "the provisions in that Bill should be treated as a minimum." Dywedodd y byddai o fudd eu cael "in the toolbox".

Mesur perfformiad

185. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ym mis Tachwedd fod y mecanweithiau i fonitro'r modd y cyflawnir 'metrigau perfformiad' gan TfW Rail Ltd, cwmni mewn perchnogaeth gyhoeddus a oedd newydd ei sefydlu, yn dal i gael eu hystyried. Y rheswm dros hyn oedd bod y system gyfredol o ddirwyon cosbi a chymhellion yn syml yn symud arian o amgylch y system ac yn ddi-fudd.

186. Ysgrifennodd Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru at y Pwyllgor ar 7 Ionawr 2021 yn cadarnhau datblygiad cyfres newydd o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) sy'n adlewyrchu gwerthoedd Trafnidiaeth Cymru ac sydd wedi'u hymgorffori yn amcanion personol staff:

"under the new more integrated model, a contract based management wouldn't be appropriate, but a more organisational and management led model with accountability to customers, owners and elected members will be right."

187. Bydd y Pwyllgor olynol yn y Chwchedd Senedd yn dymuno adolygu hyn, er mwyn cael sicrwydd bod y mesurau perfformiad yn erbyn buddsoddiad cyhoeddus yn ddigonol, yn dryloyw ac yn effeithiol.

Argymhelliad 50. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun adfer ar gyfer bysiau a rheilffyrdd sy'n cynnwys:

- y gwaith y mae ei angen i ddeall ac ymateb i anghenion teithio teithwyr ar ôl y pandemig;
- cynlluniau wedi'u blaenoriaethu ar gyfer strwythurau gwasanaethau, prisiau a thocynnau newydd; a
- chefnogi gweithgarwch hyrwyddo a marchnata.

Argymhelliad 51. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwerthusiad o effeithiolrwydd ymyriadau teithio lleol tymor byr a roddwyd ar waith mewn ymateb i Covid-19. Dylai'r gwerthusiad amlinellu'r gwersi a ddysgwyd, astudiaethau achos ac arfer gorau i'w rannu ar draws awdurdodau lleol.

Argymhelliad 52. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cwmpas yr opsiynau i roi mwy o sicrwydd cyllid tymor hir i awdurdodau lleol ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth, yn debyg i'r hyn a gynigir i Trafnidiaeth Cymru yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Rhaid ystyried yr angen am gyllid refeniw a chyfalaf. Os nad yw'r cyllid tymor hwy hwn yn bosibl, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir pam

fod y dull ar gyfer llywodraeth leol yn wahanol i'r dull ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth.

Argymhelliad 53. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanweithiau y bydd yn eu defnyddio i sicrhau consensws trawsbleidiol ar flaenoriaethau ar gyfer y buddsoddiadau 'tocynnau mawr' mewn seilwaith trafndiaeth a gweithrediadau sy'n angenrheidiol ar gyfer adferiad.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar [wefan](#) y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
16 Medi 2020	Yr Athro Dylan Jones-Evans, Prifysgol De Cymru Yr Athro Andrew Henley Prifysgol Caerdydd Yr Athro Gillian Bristow, Prifysgol Caerdydd David Hagendyk, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith Helen Cunningham, Sefydliad Bevan
23 Medi 2020	Leighton Jenkins - CBI Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru Amy Bainton Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru Peter Hughes, UNITE Cymru Shavanah Taj Cyngres yr Undebau Llafur Cymru
30 Medi 2020	Christine Boston, Transform Cymru Ryland Jones, Sustrans Cymru Norman Baker, Yr Ymgyrch dros Drafnidiaeth Well David Beer Ffocws ar Drafnidiaeth Yr Athro Glenn Lyons, Prifysgol Gorllewin Lloegr Nick Richardson, Mott Macdonald
7 Hydref 2020	Andrew Campbell, Cynghair Twristiaeth Cymru David Chapman UK Hospitality

	Victoria Brownlie, Y Ffederasiwn Cenedlaethol ar gyfer Gwallt a Harddwch Sarah Jones Consortiwm Manwerthu Cymru John Whalley, Fforwm Awyrofod Cymru Cyf Richard Warren, UK Steel
14 Hydref 2020	Dr Sioned Pearce, Prifysgol Caerdydd Yr Athro Ewart Keep, Prifysgol Rhydychen Laura-Jane Rawlings, Youth Employment UK Cerys Furlong Chwarae Teg Dr Alison Parken Prifysgol Caerdydd Ruth Coombs Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Rhian Davies Anabled Cymru
4 Tachwedd 2020	Ali Abdi Citizens Cymru a Chyngor Hil Cymru Shavanah Taj Is-grŵp economaidd-gymdeithasol Grŵp Cynghorol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig y Prif Weinidog ar Covid-19 Ginger Wiegand Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Haf Elgar Cyfeillion y Ddaear Cymru Tabea Wilkes, RSPB Cymru
11 Tachwedd 2020	Ken Skates AS Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru Simon Jones Llywodraeth Cymru Sioned Evans, Llywodraeth Cymru
18 Tachwedd 2020	Sian Lloyd Roberts, Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru David Roberts, Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru

	Richard Tobutt, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd Huw Wilkinson, De-ddwyrain Cymru Janet Lewis Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru
--	---

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
COV-01	Bargen Ddinesig Caerdydd
COV-02	Maes Awyr Caerdydd
COV-03	Chwarae Teg
COV-04	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
COV-05	PTI Cymru Ltd (Traveline Cymru)
COV-06	Ymateb unigol
COV-07	Cyngor Cymunedau Diwydiannol Cymru
COV-08	Cyngor Sir Ynys Môn
COV-09	Cymdeithas Milfeddygon Prydain
COV-10	Ffocws ar Drafnidiaeth
COV-11	Sefydliad Ymgynghorwyr Theatr
COV-12	Ysgol Reolaeth Prifysgol St Andrews
COV-13	Prifysgol St Andrews ac Aberystwyth
COV-14	Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru
COV-15	Grŵp BT
COV-16	Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol
COV-17	ICA Cymru
COV-18	Y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref
COV-19	Cymdeithas Milfeddygon Prydain
COV-20	Ffocws ar Drafnidiaeth
COV-21	Sefydliad Ymgynghorwyr Theatr
COV-22	Deryn
COV-23	Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)
COV-24	Ymateb unigol
COV-25	Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain
COV-26	Ymateb unigol
COV-27	Sefydliad Bevan yng Nghymru

COV-28	Prifysgol Caerdydd
COV-29	Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru
COV-30	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
COV-31	Vatenfall Wind Power
COV-32	Sioned Pearce
COV-33	Jones Bros Civil Engineering UK
COV-34	Prifysgol Caerdydd